



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5
Legislation Committee No. 5**

**Dydd Mercher, 10 Chwefror 2010
Wednesday, 10 February 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions
- 4 Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) – Cyfnod 1:
Sesiwn dystiolaeth 1 Proposed Carers Strategies (Wales) Measure – Stage 1: Evidence
session 1

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y cyfarfod.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the meeting. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (yn dirprwyo ar ran Mick Bates) Welsh Liberal Democrats (substitute for Mick Bates)
Alun Davies	Llafur Labour
Mark Isherwood	Ceidwadwyr Cymreig (Cadeirydd y Pwyllgor) Welsh Conservatives (Committee Chair)
Ann Jones	Llafur (yn dirprwyo ar ran Andrew Davies) Labour (substitute for Andrew Davies)
Darren Millar	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Leanne Wood	Plaid Cymru The Party of Wales

Eraill yn bresennol
Others in attendance

John Carter	Pennaeth Cangen Oedolion Agored i Niwed a Gofalwyr, Llywodraeth Cynulliad Cymru Head of Vulnerable Adults and Carers Branch, Welsh Assembly Government
Therese Gray	Uwch-gyfreithiwr, Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru Senior Lawyer, Legal Services, Welsh Assembly Government
Gwenda Thomas	Aelod Cynulliad, Llafur (y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol) Assembly Member, Labour (the Deputy Minister for Social Services)

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol
National Assembly for Wales officials in attendance

Stephen Boyce	Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau Members' Research Service
Bethan Davies	Clerc Clerk
Leanne Hatcher	Deputy Clerc Dirprwy Glerc
Bethan Roberts	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser

Dechreuodd y cyfarfod am 9.04 a.m.
The meeting began at 9.04 a.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions

[1] **Mark Isherwood:** Welcome to **Mark Isherwood:** Croeso i Bwyllgor
 Legislation Committee No. 5. This morning, Deddfwriaeth Rhif 5. Y bore hwn, mae
 Eleanor Burnham is substituting for Mick Eleanor Burnham yn cymryd lle Mick Bates
 Bates and Ann Jones is substituting for ac mae Ann Jones yn cymryd lle Andrew

Andrew Davies. Welcome to you both.

Davies. Croeso i chi'ch dau.

[2] I will go through the housekeeping arrangements first. In the event of a fire alarm, Members and those in the public gallery should leave by the marked fire exits and follow instructions from the ushers and staff. No test is forecast for today.

Yr wyf am fynd drwy'r trefniadau cadw tŷ i ddechrau. Os bydd larwm tân, dylai Aelodau a'r rheiny yn yr oriel gyhoeddus adael drwy'r allanfeydd tân sydd wedi'u marcio a dilyn cyfarwyddiadau gan y tywyswyr a staff. Ni ragwelir y bydd prawf heddiw.

[3] All mobile phones, pagers and BlackBerrys should be switched off as they interfere with the broadcasting equipment. The National Assembly for Wales operates through the media of Welsh and English. Headphones are provided, through which the simultaneous translation of the Welsh may be heard. They may also be used to amplify sound for anyone who is hard of hearing. The translation is available on channel 1 and amplification is on channel 0. Please do not touch any of the buttons on the microphones as this can disable the system. Please ensure that the red light is on before you speak.

Dylid diffodd pob ffôn symudol, galwyr a BlackBerrys gan eu bod yn amharu ar y cyfarpar darlledu. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu yn Gymraeg a Saesneg. Darperir clustffonau, a gellir clywed cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg drwyddynt. Gellir eu defnyddio hefyd i wneud y sain yn uwch ar gyfer unrhyw un sy'n drwm eu clyw. Mae'r cyfieithiad ar gael ar sianel 1 a'r sain yn uwch ar sianel 0. Peidiwch â chyffwrdd unrhyw fotwm ar y microffonau gan y gall hyn analluogi'r system. Gofalwch fod y golau coch ymlaen cyn i chi siarad.

9.05 a.m.

**Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) –
Cyfnod 1: Sesiwn dystiolaeth 1
Proposed Carers Strategies (Wales) Measure – Stage 1: Evidence session 1**

[4] **Mark Isherwood:** Legislation Committee No. 5 is considering the general principles of the Proposed Carers Strategies (Wales) Measure. Following the committee's agreement at last week's meeting, the public consultation was launched on 4 February 2010, and the closing date for responses is 18 March. The details are on the committee's website.

Mark Isherwood: Mae Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru). Yn dilyn cytundeb y pwyllgor yn y cyfarfod yr wythnos diwethaf, lanswyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 4 Chwefror 2010, a 18 Mawrth yw'r dyddiad cau ar gyfer ymateb. Mae'r manylion ar wefan y pwyllgor.

[5] The purpose of today's meeting is to take oral evidence in connection with the proposed Measure. I welcome Gwenda Thomas, the Deputy Minister for Social Services, who is responsible for introducing the proposed Measure. I also welcome her officials. Please introduce yourselves for the record.

Diben cyfarfod heddiw yw cymryd dystiolaeth lafar mewn cysylltiad â'r Mesur arfaethedig. Yr wyf yn croesawu Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cyhoeddus, sy'n gyfrifol am gyflwyno'r Mesur arfaethedig. Yr wyf hefyd yn croesawu ei swyddogion. A fydddech cystal â chyflwyno'ch hun ar gyfer y cofnod.

[6] **Ms Gray:** I am Therese Gray from legal services.

Ms Gray: Fi yw Theresa Gray o'r gwasanaethau cyfreithiol.

[7] **Mr Carter:** I am John Carter. I am the

Mr Carter: Fi yw John Carter. Fi yw

head of the vulnerable adults and carers branch in the health and social services directorate.

[8] **Mark Isherwood:** Thank you. I will ask the first question. Could you clarify the purpose of the proposed Measure and what you wish to achieve with it?

[9] **The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** I wish to start by saying that I am committed to the continuing development of our policies designed to support carers and to help them maintain their own health and wellbeing as well as helping them to make a vital contribution to the lives of those they care for. The proposed Measure is an important and timely impetus to improve support for the many carers in Wales. The purpose of the proposed Measure is to enable the National Assembly to legislate to introduce new legal duties on the NHS and local authorities in Wales—the relevant authorities—to work jointly and in consultation with carers to prepare, publish and implement a joint strategy in relation to carers. The proposed Measure covers all local authorities and NHS service provision, whether these are directly provided or contracted services.

[10] The strategy will make provision for information and advice to be provided to carers and for the effective involvement of the relevant authorities with carers when making decisions about the provision of services to or for carers or the person cared for. It seeks to address two of the main issues of concern that carers have identified to us, namely the provision of information to help them to undertake their caring role and the need for authorities to consult carers on the broader planning of their services and at an individual level when deciding what services are to be provided to a carer or the person cared for.

[11] **Mark Isherwood:** Thank you. What will the proposed Measure allow for that is not already provided for in existing

pennaeth y gangen oedolion agored i niwed a gofalwyr yn y gyfarwyddiaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Mark Isherwood: Diolch. Yr wyf am ofyn y cwestiwn cyntaf. A allwch egluro diben y Mesur arfaethedig a'r hyn yr ydych am iddo ei gyflawni?

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Yr wyf am ddechrau drwy ddweud fy mod yn ymrwymedig i ddatblygiad parhaus ein polisiau sydd â'r nod o gefnogi gofalwyr a'u cynorthwyo i gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain yn ogystal â'u cynorthwyo i wneud cyfraniad hanfodol at fywydau'r rhai hynny y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r Mesur arfaethedig yn ysgogiad pwysig ac amserol i wella cymorth ar gyfer llawer o ofalwyr yng Nghymru. Diben y Mesur arfaethedig yw galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu i gyflwyno dyletswyddau cyfreithiol newydd ar y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru—yr awdurdodau perthnasol—i gydweithio ac mewn ymgynghoriad â gofalwyr i baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaeth ar y cyd mewn perthynas â gofalwyr. Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pob awdurdod lleol a darpariaeth gwasanaethau'r GIG, boed yn wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol neu'n rhai o dan gontract.

Bydd y strategaeth yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwybodaeth a chyngor i'w darparu i ofalwyr ac ar gyfer cyfranogiad effeithiol yr awdurdodau perthnasol gyda gofalwyr wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaethau i neu ar gyfer gofalwyr neu'r person sy'n derbyn gofal. Mae'n ceisio mynd i'r afael â dau o'r prif achosion pryder y mae gofalwyr wedi'u nodi wrthym ni, sef darpariaeth gwybodaeth i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl gofalu a'r angen i awdurdodau ymgynghori â gofalwyr ar y gwaith ehangach o gynllunio eu gwasanaethau ac ar lefel unigol wrth benderfynu pa wasanaethau a fydd yn cael eu darparu i ofalwr neu'r person sy'n derbyn gofal.

Mark Isherwood: Diolch. Beth a ganiateir o dan y Mesur arfaethedig na ddarperir eisoes ar ei gyfer mewn deddfwriaeth gyfredol neu

legislation or current practice?

[12] **Gwenda Thomas:** Thank you for that question. This is important because, for the first time, there will be specific legal duties on local authorities and, in particular, NHS bodies to address carers' issues. The new legal duties will include the requirement to prepare and publish a strategy setting out how they will work together in providing information and advice to carers, to consult carers before decisions on services are made, and to implement the strategy. In addition, there are further opportunities for Welsh Ministers to place further requirements on relevant authorities through the regulatory powers in, for example, sections 4 and 5 of the proposed Measure. For NHS organisations, there are currently no significant legislative requirements to comply with in relation to carers, so the proposed Measure represents a major step forward.

9.10 a.m.

[13] With regard to practice, as we discussed during scrutiny of the carers LCO, although there is some good practice in Wales, there are still some key areas that are not being consistently addressed to the standard that we would want. This variation in the type and quality of services provided to carers confirmed to me that we can no longer rely solely on existing reinforcement approaches, such as performance measures or inspection, to achieve improvements. The central case for this new legislation is therefore a strong one, and it is absolutely necessary if we are to achieve the improvements needed in services and support for carers in Wales.

[14] **Alun Davies:** Thank you for that introduction, Minister. I am quite interested in this proposed Measure because much of the rhetoric and the debate around the legislative competence Order focused on the concept of carers having the right to receive services. However, this proposed Measure does not give carers any rights—it imposes duties on authorities. Why have you taken that approach rather than giving the carers themselves specific rights so that all authorities, whether they are listed in this

arfer presennol?

Gwenda Thomas: Diolch am y cwestiwn hwnnw. Mae hyn yn bwysig oherwydd, am y tro cyntaf, bydd dyletswyddau cyfreithiol penodol ar awdurdodau lleol ac, yn benodol, cyrff y GIG i fynd i'r afael â materion gofalwyr. Bydd y dyletswyddau cyfreithiol newydd yn cynnwys y gofyniad i baratoi a chyhoeddi strategaeth yn nodi sut byddant yn cydweithio i ddarparu gwybodaeth a chynghor i ofalwyr, i ymgynghori â gofalwyr cyn gwneud penderfyniadau ar wasanaethau, ac i weithredu'r strategaeth. Hefyd, mae cyfleoedd pellach i Weinidogion Cymru roi gofynion pellach ar awdurdodau perthnasol drwy'r pwerau rheoleiddio yn, er enghraifft, adrannau 4 a 5 y Mesur arfaethedig. O ran sefydliadau'r GIG, nid oes gofynion deddfwriaethol sylweddol ar hyn o bryd i gydymffurfio â hwy mewn perthynas â gofalwyr, felly mae'r Mesur arfaethedig yn cynrychioli cam pwysig ymlaen.

O ran ymarfer, fel y trafodwyd gennym wrth i ni graffu ar GCD gofalwyr, er bod rhywfaint o arfer da yng Nghymru, mae rhai meysydd allweddol o hyd nad ydynt yn cael eu trin yn gyson i'r safon y byddem yn ei dymuno. Cadarnhaodd yr amrywiad yn y math ac ansawdd o wasanaethau a ddarperir i ofalwyr i mi na allwn bellach ddibynnu'n unig ar ddulliau atgyfnerthu cyfredol, fel mesurau perfformiad neu archwiliadau, i sicrhau gwelliannau. Felly mae'r achos canolog ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd hon yn un cryf, ac mae'n hollol angenrheidiol os ydym am gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen mewn gwasanaethau a chymorth ar gyfer gofalwyr yng Nghymru.

Alun Davies: Diolch am y cyflwyniad, Weinidog. Mae gennyf gryn ddiddordeb yn y Mesur arfaethedig hwn oherwydd bod llawer o'r areitheg a'r drafodaeth ynghylch y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yn canolbwyntio ar y cysyniad o ofalwyr yn cael yr hawl i dderbyn gwasanaethau. Fodd bynnag, nid yw'r Mesur arfaethedig hwn yn rhoi unrhyw hawliau i ofalwyr—mae'n rhoi dyletswyddau ar awdurdodau. Pam yr ydych wedi defnyddio'r dull hwn yn hytrach na rhoi hawliau penodol i'r gofalwyr eu hunain fel y

proposed Measure or not, would have to ensure that their services meet the rights that carers have by law?

[15] **Gwenda Thomas:** I understand the point that you make on the rights-based approach. At the moment, the Equality Bill is progressing through Parliament, and I know that Carers Wales, for example, has made this point with regard to the contents of that Bill. However, the provisions of that Bill will have no direct effect on this proposed Measure, so you are right to raise the issue. By statutorily requiring local authorities and the NHS to produce these strategies we are ensuring that they will have to provide this information to carers and engage with them. It turns the issue on its head, if you like, and as a first steps measure—because we believe that this Measure, if passed, could be developed to include other services within our legislative competence—I believe that this is the right way forward. We must not delay in requiring authorities to take these steps.

[16] **Alun Davies:** I appreciate the points that you make, but is it therefore necessary to legislate? I can understand that you want to give a statutory underpinning to the requirement for authorities to provide particular services, but surely the Government already has the ability to direct local authorities and NHS bodies to provide their services in a particular way. It would be possible for the Government to achieve its policy objectives without legislation.

[17] **Gwenda Thomas:** There is a list of legislation that has developed rights for carers, and I could make that available to you. However, I do not believe that we can sustain the current position, and, despite positive steps being taken by local authorities, there is no requirement on the NHS to take these steps, as I have already said. As my answer to the previous question indicated, I do not think that that position is sustainable, and so I think that we need the provisions contained in this proposed Measure.

byddai'n rhaid i bob awdurdod, boed a ydynt wedi'u rhestru yn y Mesur arfaethedig hwn ai peidio, sicrhau bod eu gwasanaethau yn bodloni'r hawliau sydd gan ofalwyr yn ôl y gyfraith?

Gwenda Thomas: Yr wyf yn deall y pwynt yr ydych yn ei wneud ar y dull seiliedig ar hawliau. Ar hyn o bryd, mae'r Mesur Cydraddoldeb yn cael ei basio drwy'r Senedd, a gwn fod Cynhalwyr Cymru, er enghraifft, wedi gwneud y pwynt hwn o ran cynnwys y Mesur hwnnw. Fodd bynnag, ni fydd gan ddarpariaethau'r Mesur hwnnw unrhyw effaith uniongyrchol ar y Mesur arfaethedig hwn, felly yr ydych yn gywir i godi'r mater. Drwy ei gwneud yn ofynnol yn statudol i awdurdodau lleol a'r GIG lunio'r strategaethau hyn yr ydym yn sicrhau y byddant yn gorfod darparu'r wybodaeth hon i ofalwyr ac ymgysylltu â hwy. Mae'n troi'r mater ar ei ben, os hoffwch chi, ac fel mesur camau cyntaf—oherwydd credwn y gallai'r Mesur hwn, pe bai'n cael ei basio, gael ei ddatblygu i gynnwys gwasanaethau eraill yn ein cymhwysedd deddfwriaethol—credaf mai dyma'r ffordd gywir ymlaen. Ni ddylem oedi cyn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gymryd y camau hyn.

Alun Davies: Yr wyf yn gwerthfawrogi'r pwyntiau yr ydych yn eu gwneud, ond a yw'n angenrheidiol deddfu felly? Gallaf ddeall eich bod am roi sylfaen statudol i'r gofyniad ar awdurdodau i ddarparu gwasanaethau penodol, ond does bosibl fod gan y Llywodraeth eisoes y gallu i gyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrrff y GIG i ddarparu eu gwasanaethau mewn ffordd benodol. Byddai'n bosibl i'r Llywodraeth gyflawni ei hamcanion polisi heb ddeddfwriaeth.

Gwenda Thomas: Mae rhestr o ddeddfwriaeth sydd wedi datblygu hawliau ar gyfer gofalwyr, a gallwn gynnig copi o honno i chi. Fodd bynnag, ni chredaf y gallwn gynnal y sefyllfa bresennol, ac, er bod camau cadarnhaol wedi'u cymryd gan awdurdodau lleol, nid oes gofyniad ar y GIG i gymryd y camau hyn, fel y dywedais eisoes. Fel yr awgrymodd fy ateb i'r cwestiwn blaenorol, ni chredaf fod y sefyllfa honno'n gynaliadwy, ac felly credaf fod arnom angen y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Mesur arfaethedig hwn.

[18] **Alun Davies:** I understand that it is not sustainable, and I would not argue that it is. My question is about the fact that the Government does not appear to have explored a non-statutory route with this. The Government does not appear to have said to local authorities or NHS bodies that it wants them to operate in a particular fashion. The Government does have a right to do that. I am interested in why that is the case, and why there is a requirement to legislate in this matter because, normally, the way in which a public body delivers its services is determined by the Government. The Government could give directions to local authorities to act in a certain way, and perhaps that would be a more efficient way of delivering the rights, if you like, to carers, without the need to delay for seven years while we go through the legislative process.

[19] **Gwenda Thomas:** To make a very important point, I believe that there has been an attempt to develop good practice in the NHS and among local authorities. However, we must not forget that this proposed Measure also places new duties on authorities to engage with carers and to consult them. We have not had that before. We have already used the approaches of statutory and non-statutory guidance to implement policies in seeking to improve the wellbeing of carers. We know, from the last report of the Care and Social Services Inspectorate Wales that provision is patchy and inconsistent, but all carers in Wales, wherever they live, deserve consistency. I think that that underlines one of the main provisions in this proposed Measure.

[20] **Eleanor Burnham:** May I ask a supplementary question?

[21] Yr wyf yn aelod newydd o'r pwyllgor hwn. Yr wyf wedi darllen y deunydd ond hoffwn ofyn cwestiwn sylfaenol ymhellach i gwestiwn Alun. A yw'r Mesur arfaethedig yn golygu y bydd hawliau gan ofalwyr, neu ai fel arall fydd hi ac y byddwch yn gosod dyletswyddau? Os gosod dyletswyddau ar y cyrff a wnewch yn unig, oni fyddai'n well

Alun Davies: Yr wyf yn deall nad yw'n gynaliadwy, ac ni fyddwn yn dadlau ei fod. Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â'r ffaith nad yw'n ymddangos fod y Llywodraeth wedi archwilio llwybr anstatudol gyda hyn. Nid yw'n ymddangos fod y Llywodraeth wedi dweud wrth awdurdodau lleol neu gyrff y GIG ei bod am iddynt weithredu mewn modd penodol. Mae gan y Llywodraeth hawl i wneud hynny. Mae gennyf ddi-ddordeb pam mae hyn wedi digwydd, a pham mae gofyniad i ddeddfu yn y ffordd hon oherwydd, fel arfer, mae'r ffordd y mae corff cyhoeddus yn darparu ei wasanaethau yn cael ei phennu gan y Llywodraeth. Gallai'r Llywodraeth roi cyfarwyddiadau i awdurdodau lleol weithredu mewn ffordd benodol, ac efallai y byddai hynny'n ffordd fwy effeithlon o ddarparu'r hawliau, os dymunwch, i ofalwyr, heb yr angen i oedi am saith mlynedd tra'n bod yn mynd drwy'r broses ddeddfu.

Gwenda Thomas: I wneud pwynt pwysig iawn, credaf fod ymgais wedi bod i ddatblygu arfer da yn y GIG ac ymysg awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gofio fod y Mesur arfaethedig hwn hefyd yn rhoi dyletswyddau newydd ar awdurdodau i ymgysylltu â gofalwyr ac i ymgynghori â hwy. Nid ydym wedi cael hynny yn y gorffennol. Yr ydym eisoes wedi defnyddio'r dulliau o arweiniad statudol ac anstatudol i weithredu polisiau i geisio gwella lles gofalwyr. Gwyddom, o adroddiad diwethaf Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod y ddarpariaeth yn dameidiog ac yn anghyson, ond mae pob gofalwr yng Nghymru, pa le bynnag y maent yn byw, yn haeddu cysondeb. Credaf fod hynny'n ategu un o'r prif ddarpariaethau yn y Mesur arfaethedig hwn.

Eleanor Burnham: A gaf fi ofyn cwestiwn ychwanegol?

I am new to this committee. I have read the background information but I would like to ask a fundamental question supplementary to Alun's question. Does this proposed Measure mean that carers will have rights, or is it the other way around, and you will be imposing duties on them? If you are imposing duties on the bodies only, would it not be better to go

mynd gam ymhellach a rhoi hawliau i ofalwyr hefyd?

one step further and give rights to carers as well?

[22] **Gwenda Thomas:** Fel y dywedais eisoes, mae hawliau yn bodoli ac maent wedi datblygu dros y blynyddoedd, ond credaf fod y cam hwn yn bwysig. Yr ydym yn erfyn i awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd sicrhau bod strategaeth glir ganddynt sy'n nodi'r cynllun y bydd angen ei ddatblygu arnynt er mwyn i'r dyletswyddau fod yn ôl y gyfraith ac fel bod rhaid iddynt gymryd y camau hyn.

Gwenda Thomas: As I have already said, rights do exist, and they have developed over the years, but I believe that this step is important. We expect local authorities and the health service to ensure that they have a clear strategy in place, which notes the scheme that they will need to develop so that the duties will be embedded in law and so that they will be required to take these steps.

[23] **Eleanor Burnham:** Felly, pam mae'r Mesur arfaethedig yn gosod dyletswyddau ar gyrff iechyd yn ogystal ag awdurdodau lleol?

Eleanor Burnham: Therefore, why does the proposed Measure impose duties on health bodies as well as on local authorities?

[24] **Gwenda Thomas:** Yr wyf wedi ceisio ateb y cwestiwn hwnnw eisoes. Nid yw'n ofynnol i awdurdodau iechyd gymryd y camau hyn ar hyn o bryd. Mae'n hollbwysig bod cydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd, oherwydd ni fydd yn gwneud synnwyr os na wnawn hynny. Efallai bod mwy o angen ar draws gwasanaethau'r gwasanaeth iechyd—os gallaf ddweud hynny—nag ar awdurdodau lleol, hyd yn oed, er bod rhan awdurdodau lleol yn bwysig hefyd. Mae gofalwyr yn defnyddio ystod eang o wasanaethau'r GIG yn gyson, ac felly mae'n hollol ofynnol inni gynnwys y gwasanaeth iechyd yn y cynllun hwn.

Gwenda Thomas: I have already tried to answer that question. It is not currently a requirement for health service bodies to take these steps. It is crucially important that there is collaboration between local authorities and the health service, because this will not make sense if we do not have that. Perhaps there is a greater need across the services provided by the health service—if I can put it thus—than there is even for local authorities, although local authorities also have an important role to play. Carers regularly access a range of services within the NHS, and so it is entirely necessary that we include the health service in this scheme.

[25] **Eleanor Burnham:** Gan fod adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn darparu mwyafrif y gwasanaethau sydd i ofalwyr, a fydd adran 5(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i benodi corff yn y gwasanaeth iechyd yn awdurdod arweiniol wrth ddatblygu strategaeth i ofalwyr yn hytrach na'r awdurdod lleol?

Eleanor Burnham: Given that social services departments currently provide most of the services for carers, will section 5(3) allow the Welsh Ministers to designate an NHS organisation as the lead authority in developing a strategy for carers, rather than it being the local authority?

9.20 a.m.

[26] **Gwenda Thomas:** Yr ydym yn cynnig y byddai'n haws i ofalwyr pe bai'r gwasanaeth iechyd yn arwain, ond nid ydym yn dweud mai dyna'r unig ffordd o symud ymlaen. Os derbyniwn y Mesur arfaethedig hwn, bydd y rheoliadau'n datblygu a bydd mwy o drafod gyda gofalwyr ac eraill, megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r gwasanaeth iechyd. Nid wyf yn derbyn bod cysylltiad gwell rhwng gofalwyr ac

Gwenda Thomas: We propose that it would be easier for carers if the health service were to take the lead, but we are not saying that that is the only way in which to progress. If we approve this proposed Measure, the regulations will develop, and there will be further discussion with carers and others, such as the Welsh Local Government Association and the health service. I do not accept that carers and local authorities have a

awdurdodau lleol na'r cysylltiad rhyngddynt a'r gwasanaeth iechyd. Ar draws yr holl wasanaethau, fel y dywedais eisoes, mae cysylltiad cryf rhwng gofalwyr a'r gwasanaeth iechyd. Felly, credwn y byddai'n ffordd inni symud ymlaen pe bai'r gwasanaeth iechyd yn arwain, ond nid yw hynny'n golygu o gwbl ein bod yn meddwl bod awdurdodau lleol yn bartneriaid gwannach yn y cynllun. Yr hyn sy'n bwysig yw eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r rheoliadau gorau posibl.

stronger link than the link between carers and the health service. Across the range of services, as I have said, there is a strong link between carers and the national health service. Therefore, we believe that it would be a way for us to move forward if the health service were to take the lead, but that in no way means that we think of local authorities as weaker partners in the scheme. What is important is that they work together to develop the best regulations possible.

[27] **Eleanor Burnham:** A allwch chi gadarnhau bod sgôp y Mesur arfaethedig yn cynnwys gofalwyr ifanc ynghyd â'r oedolion? Os felly, sut y bydd y Mesur arfaethedig yn sicrhau bod anghenion penodol gofalwyr ifanc yn cael eu gwarchod gan ofnyon y strategaeth y bydd yr awdurdodau perthnasol yn ei datblygu?

Eleanor Burnham: Can you confirm that the scope of the proposed Measure includes young carers as well as adults? If so, how will the proposed Measure ensure that the specific needs of young carers are protected by the requirements of the strategy that the relevant authorities will be developing?

[28] **Gwenda Thomas:** Gallaf. Mae sgôp y Mesur arfaethedig yn golygu y gallwn gynnwys gofalwyr ifanc ac oedolion. Nid oes dwywaith am hynny. Ar hyn o bryd, credwn y byddai'r rheoliadau o dan adran 5 yn ymwneud â gofyniadau pob gofalwr. Bydd angen pennod ychwanegol am ofalwyr ifanc o fewn y strategaeth, er mwyn dwyn y ffocws yn llwyr arnynt. Dyna'r bwriad.

Gwenda Thomas: Yes, I can. The scope of the proposed Measure means that we can include young carers as well as adults. There is no question about that. At present, we believe that the regulations under section 5 would deal with the requirements of all carers. We will need an additional chapter on young carers in the strategy, to place the focus entirely on them. That is the aim.

[29] **Eleanor Burnham:** Clywodd y pwyllgor a oedd yn craffu ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009 dystiolaeth a oedd yn awgrymu y dylid cyfeirio'n benodol at ofalwyr ifanc ym mater 15.9 i sicrhau nad ydynt yn cael eu hanwybyddu ac na fyddai strategaeth o'r fath yn colli ffocws arnynt. A ddylai'r Mesur arfaethedig hwn ddatgan yn benodol y dylid cynnwys gofalwyr ifanc yn ei sgôp?

Eleanor Burnham: Evidence presented to the committee that was scrutinising the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Social Welfare) Order 2009 suggested that young carers should be explicitly referred to in matter 15.9 to ensure that they are not ignored and that the strategy does not lose focus on them. Should this proposed Measure state specifically that young carers should be included within its scope?

[30] **Gwenda Thomas:** Fel y dywedais eisoes, mae'r Mesur arfaethedig yn cofleidio gofalwyr ifanc, ac felly nid wyf yn credu ei bod hi'n angenrheidiol sôn amdanynt yn benodol. O feddwl am y pwerau a fydd gennym o dan y rheoliadau, fel y rheiny o dan adran 5, gallwn gynnwys pennod sy'n dwyn ffocws ar ofalwyr ifanc yn y strategaeth.

Gwenda Thomas: As I have already said, the Measure embraces young carers, and so I do not think it necessary to refer to them specifically. Thinking of the powers that we will have under the regulations, such as those contained in section 5, we could include a chapter focusing on young carers in the strategy.

[31] **Eleanor Burnham:** A ydych yn siŵr o hynny, oherwydd mae rhai ohonom yn gwybod o brofiad fod gan ofalwyr ifanc anghenion hollol wahanol i ofalwyr eraill?

Eleanor Burnham: Are you sure about that, because some of us know from experience that young carers have very different needs from those of adult carers?

[32] **Gwenda Thomas:** Ydwyf. Mae hynny'n bwysig iawn i mi hefyd. Mae gofalwyr ifanc wedi sôn wrthyf eu bod eisiau cael eu derbyn, a dyna pam yr ydym yn cynnig cynnwys pennod ehangach ar ofynion gofalwyr ifanc, ac mae deddfwriaeth ychwanegol y gallwn ei defnyddio i sicrhau ein bod yn ystyried gofalwyr ifanc fel plant mewn angen. Mae'r Mesur ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 wedi cael Cymeradwyaeth Frenhinol heddiw, ac mae hynny'n golygu y byddwn yn gallu ymateb i anghenion gofalwyr ifanc, oherwydd plant ydynt yn y lle cyntaf. Rhaid derbyn bod llawer o'r gofalwyr ifanc hyn eisiau bod yn y rôl honno, ond rhaid inni geisio sicrhau nad yw'r baich arnynt yn ormodol, o ystyried eu hoedran.

Gwenda Thomas: Yes. That is also very important to me. Young carers have told me that they want to be accepted, and that is why we are proposing including a broader chapter on the needs of young carers, and there is additional legislation that we could use to ensure that we consider young carers as children in need. The Children and Families (Wales) Measure 2010 has received Royal Approval today, and that means that we will be able to respond to the needs of young carers, because they are children first. We must accept that many of these young carers want to be in that role, but we must ensure that the burden placed upon them is not too great, given their age.

[33] **Eleanor Burnham:** Dywedasoeh yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Ionawr eich bod wedi penderfynu cynnwys, o'r ystod o wasanaethau awdurdodau lleol,

Eleanor Burnham: You stated in Plenary on 26 January that, of the range of local authority services, you have decided to cover

[34] 'y gwasanaethau cymdeithasol yn y lle cyntaf ac, o bosibl, tai'.

'in the first instance, social services and possibly housing'.

[35] Gan ystyried rôl bwysig gwasanaethau addysg wrth nodi gofalwyr ifanc, pam nad ydych yn bwriadu cynnwys y gwasanaeth iechyd o'r cychwyn cyntaf?

Given the important role of education services in identifying young carers, why do you not intend to include the health service from the outset?

[36] **Gwenda Thomas:** Y gwasanaeth iechyd? Yr ydym yn cynnwys y gwasanaeth iechyd. A oeddech chi'n golygu gwasanaethau addysg?

Gwenda Thomas: The health service? We are covering the health service. Did you mean to say education services?

[37] **Eleanor Burnham:** Oeddwn. Mae'n ddrwg gennyf.

Eleanor Burnham: Yes, I did. I am sorry.

[38] **Gwenda Thomas:** Golyga'r Mesur arfaethedig ein bod yn gallu ystyried gwasanaethau addysg, o ran datblygu ei gwmpas. Yn y lle cyntaf, yr ydym yn cynnwys y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol ac, o bosibl, gwasanaethau tai. I ddatblygu'r gwasanaeth iechyd, ni chredaf y byddem yn effeithiol wrth drafod rhyw fath o *big bang*. Credaf fod cymryd y camau hyn yn ffordd well ymlaen,

Gwenda Thomas: The proposed Measure means that we can consider education services, in developing its scope. In the first instance, we are including the health service and social services and, possibly, housing services. To develop the health service, I do not believe that we would deal very effectively with a big-bang approach. I believe that taking these steps forward is a better way to approach it, as the proposed

ac mae'r Mesur arfaethedig yn cofleidio holl wasanaethau awdurdodau lleol. Nid oes dwywaith am hynny. Gellir ystyried cynnwys y gwasanaethau addysg yn y dyfodol.

Measure does encompass all local authority services. There is no question about that. Education services could be considered for inclusion in the future.

[39] **Eleanor Burnham:** A yw hynny'n golygu na fydd awdurdodau lleol yn gorfod penodi gwasanaeth drwy'r gwasanaethau addysg ar y cychwyn? Yr oedd y cwestiwn cyntaf ynghylch y ffaith eich bod yn edrych fel pe baech yn anwybyddu gofalwyr ifanc, felly a ydych yn siŵr na fyddant yn cael eu hanwybyddu?

Eleanor Burnham: Does that mean that local authorities will not be required to designate services through the education services at the outset? The initial question was regarding the fact that you appeared to be ignoring young carers. Therefore, are you certain that they will not be ignored?

[40] **Gwenda Thomas:** Mae'n bwysig deall na fydd y Mesur arfaethedig yn lleihau dyletswydd awdurdodau lleol i gyflwyno'r gwasanaethau hyn. Fel y dywedais eisoes, mae'n cynnwys y gwasanaethau iechyd a phob gwasanaeth arall a ddarparir gan awdurdodau lleol, ond, fel cam cyntaf, y bwriad yw symud ymlaen drwy gynnwys y gwasanaeth iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac, o bosibl, gwasanaethau tai. Gallwn wedyn ystyried sut i'w ddatblygu ar draws y gwasanaethau eraill.

Gwenda Thomas: It is important to understand that this proposed Measure will not in any way diminish the duties of local authorities to provide these services. As I have already said, the proposed Measure includes the health service and all other services provided by local authorities, but, as a first step, the intention is to make progress by including the health service, social services and possibly housing services. We can then consider how to extend this across the other services.

[41] **Mark Isherwood:** Thank you, Deputy Minister. Perhaps we can deal with that issue further with the other witnesses, as we continue our scrutiny process. Leanne has the next question.

Mark Isherwood: Diolch, Ddirprwy Weinidog. Efallai y gallwn ymdrin â'r mater hwnnw ymhellach gyda'r tystion eraill, wrth i ni barhau â'n proses graffu. Leanne sydd am ofyn y cwestiwn nesaf.

[42] **Leanne Wood:** Deputy Minister, you have already stated that one reason for this proposed Measure is to ensure consistency across local authority and health authority boundaries. How will the proposed Measure ensure a consistent approach between relevant authorities, in the preparation, publication and implementation of the strategy?

Leanne Wood: Ddirprwy Weinidog, yr ydych eisoes wedi dweud mai un rheswm am y Mesur arfaethedig hwn yw sicrhau cysondeb ar draws ffiniau awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd. Sut bydd y Mesur arfaethedig yn sicrhau dull cyson rhwng awdurdodau perthnasol, wrth baratoi, cyhoeddi a gweithredu'r strategaeth?

[43] **Gwenda Thomas:** Sections 3, 4 and 5 of the proposed Measure provide the Welsh Ministers with regulatory powers to make further provision on: the matters to be dealt with in a strategy; what constitutes appropriate information and advice; keeping the strategy under review; the consultation that must be undertaken before or during the preparation, implementation or review of a strategy; and the arrangements to monitor and evaluate the strategy. That will enable us, therefore, to establish a framework for the

Gwenda Thomas: Mae adrannau 3, 4 a 5 y Mesur arfaethedig yn darparu pwerau rheoleiddio i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ar: y materion y dylai strategaeth fynd i'r afael â hwy; ystyr gwybodaeth a chyngor priodol; parhau i adolygu'r strategaeth; y gwaith ymgynghori sy'n rhaid ei gyflawni cyn neu yn ystod y gwaith o baratoi, gweithredu neu adolygu strategaeth; a'r trefniadau i fonitro a gwerthuso'r strategaeth. Bydd hynny'n ein galluogi, felly, i sefydlu fframwaith ar gyfer

strategies that the responsible authorities must follow. I expect every strategy to reflect an authority's own priorities and actions and the results of its own consultations locally. Section 6 of the proposed Measure requires each draft strategy to be submitted to the Welsh Ministers, not for the purpose of passing a judgment on the contents of the strategy itself, but to ensure that it complies with the regulations contained in the proposed Measure. That is important and must be done, and the Welsh Ministers will check on compliance.

y strategaethau y mae'n rhaid i'r awdurdodau cyfrifol eu dilyn. Yr wyf yn disgwyl i bob strategaeth adlewyrchu blaenoriaethau a champau gweithredu'r awdurdod ei hun a chanlyniadau ei ymgynghoriadau ei hun yn lleol. Mae'n ofynnol yn ôl adran 6 y Mesur arfaethedig i bob strategaeth ddrafft gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru, nid er mwyn rhoi barn ar gynnwys y strategaeth ei hun, ond er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau sydd wedi'u cynnwys yn y Mesur arfaethedig. Mae hynny'n bwysig ac mae'n rhaid ei wneud, a bydd Gweinidogion Cymru yn cadw llygad ar gydymffurfiaeth.

9.30 a.m.

[44] **Leanne Wood:** So, you will check on compliance, but what is in the proposed Measure to enable you to check on the implementation?

Leanne Wood: Felly, byddwch yn cadw llygad ar gydymffurfiaeth, ond beth sydd yn y Mesur arfaethedig i'ch galluogi i gadw llygad ar y gweithredu?

[45] **Gwenda Thomas:** The proposed Measure also covers the implementation of the strategy and such checking. There will also be provision to monitor and evaluate the effectiveness of the strategy. Compliance, implementation, monitoring and evaluation are covered within the scope of the proposed Measure.

Gwenda Thomas: Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn cynnwys gweithredu'r strategaeth ac archwilio o'r fath. Bydd darpariaeth hefyd ar gyfer monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y strategaeth. Mae cydymffurfiaeth, gweithredu, monitro a gwerthuso wedi'u cynnwys yng nghwmpas y Mesur arfaethedig.

[46] **Leanne Wood:** What will happen if you are not satisfied that a particular body or relevant authority is implementing this as it should? What sanctions do you have under this proposed Measure?

Leanne Wood: Beth fydd yn digwydd os nad ydych yn fodlon bod corff penodol neu awdurdod perthnasol yn gweithredu hyn fel y dylai? Pa sancsiynau sydd gennych o dan y Mesur arfaethedig?

[47] **Gwenda Thomas:** You talk about sanctions, but I do not honestly believe that any local authority or NHS body will deliberately seek to not comply. I would like to put that on record. I do not know whether you are thinking of sanctions such as placing the responsibility on individual members, but I do not think that we will go that far. There will be provision to monitor compliance and the delivery of the strategy through the complaints procedure, CSSIW inspections, for example, and the ombudsman service. That is the way that I see these sanctions developing, if they need to.

Gwenda Thomas: Yr ydych yn siarad am sancsiynau, ond nid wyf mewn gwirionedd yn credu y bydd unrhyw awdurdod lleol neu gorff y GIG yn ceisio peidio â chydymffurfio'n fwriadol. Hoffwn roi hynny ar gofnod. Nid wyf yn gwybod a ydych yn meddwl am sancsiynau fel rhoi'r cyfrifoldebau ar aelodau unigol, ond ni chredaf y byddwn yn mynd mor bell â hynny. Bydd darpariaeth ar gyfer monitro cydymffurfiaeth a darparu'r strategaeth drwy'r weithdrefn gwyno, arolygiadau AGGCC, er enghraifft, a'r gwasanaeth ombwdsmon. Dyna sut y gwelaf y sancsiynau hyn yn datblygu, os oes angen iddynt wneud hynny.

[48] **Leanne Wood:** I was not referring to

Leanne Wood: Nid oeddwn yn cyfeirio at

sanctions against individuals. You stated at the outset that there would be legal duties on relevant authorities to provide strategies and to engage with carers. I am trying to explore what would happen to those local authorities if they did not comply with the legal duty.

[49] **Gwenda Thomas:** This will ensure that there is a requirement to comply in law. That will be a major step forward. As usual, there will be means of ensuring that that happens, as has been long established. I would like to say that, reflecting on the positive contribution of the stakeholder group, which includes the WLGA and NHS organisations, I do not sense that any authority will deliberately seek to not comply with the regulations that will be developed if this proposed Measure is accepted.

[50] **Leanne Wood:** Thank you for that. Can you clarify whether each local authority area will be expected to produce a separate carers strategy or whether there could be as few as seven strategies covering the whole of Wales if local health boards become the lead organisations? Each of those strategies would encompass more than one local authority area.

[51] **Gwenda Thomas:** I do not think that we intend to be too prescriptive about this. However, I certainly envisage that each local authority area will be, and must be, involved in the strategy. Within its scope, the proposed Measure currently states that two or more authorities need to work jointly and collaboratively to develop the strategy. I cannot see anything wrong with certain aspects of the strategy developing over a wider area. That could ensure that the intention behind this proposed Measure would be carried through. There may be overarching issues that can be dealt with in a wider area, but I certainly think that the local authority will need to consult with its own residents and population to ensure that the strategy also embraces the needs of local people. You could have an umbrella effect and then the filtering down to local authority areas. That is what I envisage.

sancsiynau yn erbyn unigolion. Dywedasoeh ar y dechrau y byddai dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau perthnasol i ddarparu strategaethau ac i ymgysylltu â gofalwyr. Yr wyf yn ceisio archwilio beth fyddai'n digwydd i'r awdurdodau lleol hynny pe na baent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyfreithiol.

Gwenda Thomas: Bydd hyn yn sicrhau bod gofyniad i gydymffurfio yn gyfreithiol. Bydd hynny'n gam mawr ymlaen. Fel arfer, bydd modd o sicrhau bod hynny'n digwydd, fel sydd wedi ei hen ymsefydlu. Hoffwn ddweud, wrth fyfyrto ar gyfraniad cadarnhaol y grŵp rhanddeiliaid, sy'n cynnwys CLILC a sefydliadau'r GIG, nad wyf yn credu y bydd unrhyw awdurdod yn ceisio peidio â chydymffurfio'n fwriadol â'r rheoliadau a fydd yn cael eu datblygu os derbynnir y Mesur arfaethedig hwn.

Leanne Wood: Diolch am hynny. A allwch chi egluro a ellid cael disgwyl i bob ardal awdurdod lleol lunio strategaeth gofalwyr ar wahân neu a ellid cael cyn lleied â saith strategaeth yn cwmpasu Cymru gyfan os bydd byrddau iechyd lleol yn dod yn sefydliadau arwain? Byddai pob un o'r strategaethau hynny yn cynnwys mwy nag un ardal awdurdod lleol.

Gwenda Thomas: Ni chredaf y bwriadwn fod yn rhy gyfarwyddol ynglŷn â hyn. Fodd bynnag, yr wyf yn sicr yn rhagweld y bydd pob ardal awdurdod lleol yn cyfrannu at y strategaeth, ac yn gorfod gwneud hynny. O fewn ei gwmpas, mae'r Mesur arfaethedig ar hyn o bryd yn nodi bod angen i ddau neu fwy awdurdod gydweithio a datblygu'r strategaeth ar y cyd. Ni allaf weld unrhyw beth o'i le gydag agweddau penodol ar y strategaeth yn datblygu dros ardal ehangach. Gallai hynny sicrhau y byddai'r bwriad wrth wraidd y Mesur arfaethedig hwn yn cael ei gyflawni. Efallai y bydd materion cyffredinol y gellid ymdrin â hwy mewn ardal ehangach, ond yr wyf yn sicr yn credu y bydd angen i'r awdurdod lleol ymgynghori â'i drigolion a'i boblogaeth ei hun i sicrhau bod y strategaeth hefyd yn diwallu anghenion pobl leol. Gallech gael effaith ambarél ac yna'r hidlo i lawr i ardaloedd awdurdodau lleol. Dyna'r wyf yn ei ragweld.

[52] **Leanne Wood:** So, if the local health board is preparing a strategy and it covers more than one local authority area, and you have two local authorities taking different approaches to the way that they work with carers, how would that situation be accommodated?

[53] **Gwenda Thomas:** They would still have to work within the framework of the proposed Measure and the regulations that will develop from it. That will ensure that there is consistency, and it is what I started off with. There is also the issue of developing a framework for the strategies that responsible authorities must follow—that will be the baseline below which no authority will be able to operate.

[54] **Leanne Wood:** So, there will be a minimum framework, and local authorities will be able to operate some different services, as long as they fit within the framework of the proposed Measure.

[55] **Gwenda Thomas:** I do not think that it is a minimum framework. Section 6 of the proposed Measure requires that each draft strategy be submitted to us, as we have already discussed, and we will then check compliance. Every strategy, at the end of the day, will have to comply with the requirements of the regulations that we develop, which will themselves grow out of the framework contained in the proposed Measure.

[56] **Darren Millar:** I am still perplexed as to how you are going to ensure that there is consistency across Wales, while allowing potentially up to 22 different arrangements for the development of carers services in the strategies. You say that you will use regulation, but unless the regulation is very prescriptive, there will still be potentially very different arrangements from one local authority to the next, and perhaps between those next door to each other. I cover two local authority areas, and the arrangements could be very different in Denbighshire to those in Conwy. I cannot see how allowing that situation to develop would ensure that there is consistency across Wales. I have taken on board some of the comments that Alun Davies made earlier about a rights-

Leanne Wood: Felly, os yw'r bwrdd iechyd lleol yn paratoi strategaeth a'i bod yn cwmpasu mwy nag un ardal awdurdod lleol, a bod gennych ddau awdurdod lleol yn cymryd gwahanol agweddau at y ffordd y maent yn gweithio gyda gofalwyr, sut byddai'r sefyllfa honno'n cael ei chaniatáu?

Gwenda Thomas: Byddent yn dal i orfod gweithio o fewn fframwaith y Mesur arfaethedig a'r rheoliadau a fydd yn datblygu ohono. Bydd hynny'n sicrhau bod cysondeb, a gyda hynny y dechreuais. Mae hefyd y mater o ddatblygu fframwaith ar gyfer y strategaethau y mae'n rhaid i awdurdodau cyfrifol eu dilyn—dyna fydd y llinell sylfaen na fydd unrhyw awdurdod yn gallu gweithredu oddi tano.

Leanne Wood: Felly, bydd fframwaith gofynnol, a bydd awdurdodau lleol yn gallu gweithredu rhai gwasanaethau gwahanol, cyhyd â'u bod yn cyd-fynd â fframwaith y Mesur arfaethedig.

Gwenda Thomas: Ni chredaf ei fod yn fframwaith gofynnol. Mae'n ofynnol yn ôl adran 6 y Mesur arfaethedig fod pob strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i ni, fel y trafodwyd gennym eisoes, ac yna byddwn yn cadw llygad ar gydymffurfiaeth. Bydd yn rhaid i bob strategaeth, yn y pen draw, gydymffurfio â gofynion y rheoliadau y byddwn yn eu datblygu, a fydd eu hunain yn deillio o'r fframwaith sydd wedi'i gynnwys yn y Mesur arfaethedig.

Darren Millar: Mae'n parhau'n ddryswch i mi sut byddwch yn sicrhau bod cysondeb ledled Cymru, tra'n caniatáu hyd at 22 o drefniadau gwahanol posibl ar gyfer datblygu gwasanaethau gofalwyr yn y strategaethau. Yr ydych yn dweud y byddwch yn defnyddio rheoliadau, ond os nad yw'r rheoliad yn gyfarwyddol iawn, bydd trefniadau gwahanol iawn o bosibl o un awdurdod lleol i'r un nesaf, ac efallai rhwng y rhai hynny sy'n gymdogion i'w gilydd. Yr wyf yn gwasanaethu dwy ardal awdurdod lleol, a gallai'r trefniadau fod yn wahanol iawn yn Sir Ddinbych i'r rhai yng Nghonwy. Ni allaf weld sut y gallai gadael i'r sefyllfa honno ddatblygu sicrhau bod cysondeb ledled Cymru. Yr wyf yn derbyn rhai o'r sylwadau a wnaed gan Alun Davies yn gynharach am

based approach rather than simply asking for the strategies to be developed. Surely, that approach would allow for some consistency, because there would be consistent rights across Wales for carers—young carers or adult carers—and that would have to be respected by all public bodies, not just NHS bodies and local authorities. Is that not a better approach, Deputy Minister?

[57] **Gwenda Thomas:** You have the rights-based approach in existing legislation. For example, you have the rights of carers to ask to work flexibly because they are carers; you tell me if you think that has translated into consistency. I do not think it has. What we read from the Care and Social Services Inspectorate for Wales points to it not being consistent. I am not speaking against a rights-based approach, but I am saying that I question whether it has delivered consistency, even with the legislation that we have. The other thing that is important is to consider that what is right for one carer in certain circumstances in one part of the country, or even one part of a council area, will not be right for another carer in a different set of circumstances. When I talk about local needs and the needs of the overarching strategy, I make the point that we have to ensure, as best we can, that we allow this proposed Measure to develop regulations that are as flexible as possible.

[58] Having said that, within the scope of the proposed Measure and the development of regulations that themselves will require wide consultation and regulatory impact assessments and so on, I believe that the framework will be strong enough. You have read all the sections of the proposed Measure, and each section has within it the means to develop very strong regulations on, for example: the duty to produce a strategy; the appropriate information and advice that need to be developed; consultation; and, in section 5, further provisions. In this strategy, and in the development of regulations following consultation with all stakeholders, I believe that the degree to which local input is allowed into the procedure is an important

ddull seiliedig ar hawliau yn hytrach na dim ond gofyn i'r strategaethau gael eu datblygu. Byddai'r dull hwnnw, oni fyddai, yn caniatáu rhywfaint o gysondeb, oherwydd byddai hawliau cyson ledled Cymru ar gyfer gofalwyr—gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion—a byddai'n rhaid i bob corff cyhoeddus barchu hynny, nid cyrff y GIG ac awdurdodau lleol yn unig. Onid yw hynny'n ymagwedd well, Ddirprwy Weinidog?

Gwenda Thomas: Mae gennych y dull seiliedig ar hawliau yn y ddeddfwriaeth gyfredol. Er enghraifft, mae gennych hawl gofalwyr i ofyn am gael gweithio'n hyblyg oherwydd eu bod yn ofalwyr; dywedwch chi wrthyf i os ydych yn credu fod hynny wedi troi'n gysondeb. Ni chredaf hynny. Mae'r hyn yr ydym yn ei ddarllen gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn awgrymu nad yw'n gyson. Nid wyf yn siarad yn erbyn dull seiliedig ar hawliau, ond yr wyf yn dweud fy mod yn cwestiynu a yw wedi darparu cysondeb, hyd yn oed gyda'r ddeddfwriaeth sydd gennym. Y peth arall sy'n bwysig i'w ystyried yw nad yw'r hyn sy'n iawn ar gyfer un gofalwr o dan amgylchiadau penodol mewn un rhan o'r wlad, neu hyd yn oed mewn un rhan o ardal cyngor, yn iawn ar gyfer gofalwr arall o dan amgylchiadau eraill. Wrth i mi siarad am anghenion lleol ac anghenion y strategaeth gyffredinol, yr wyf yn gwneud y pwynt bod yn rhaid i ni sicrhau, hyd eithaf ein gallu, ein bod yn caniatáu i'r Mesur arfaethedig hwn ddatblygu rheoliadau sydd mor hyblyg â phosibl.

Ar ôl dweud hynny, o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig a datblygiad rheoliadau y bydd angen ymgynghori yn eang arnynt ac asesiadau effaith rheoleiddio ac ati, credaf y bydd y fframwaith yn ddigon cryf. Yr ydych wedi darllen holl adrannau'r Mesur arfaethedig, ac mae gan bob adran ffordd o ddatblygu rheoliadau cryf iawn ar, er enghraifft: y ddyletswydd i lunio strategaeth; y wybodaeth a'r cyngor priodol sydd angen eu datblygu; ymgynghori; ac yn adran 5, darpariaethau pellach. Yn y strategaeth hon, ac wrth ddatblygu rheoliadau ar ôl ymgynghori â'r holl randdeiliaid, credaf fod i ba raddau y mae mewnbyn lleol yn cael ei ganiatáu yn y weithdrefn yn fater pwysig.

issue.

9.40 a.m.

[59] **Darren Millar:** I would certainly not suggest that you should not have local input into the development of local services or that you should not try to meet the needs of individual carers wherever possible. However, if your stated aim is consistency, then allowing 22 different sets of arrangements to exist across Wales is not a good way to go about it. I cannot see how that will deliver consistency across the country.

[60] **Gwenda Thomas:** We must look at individual needs where necessary—that is fundamentally important. The scope of this proposed Measure and the explanatory memorandum make it clear that there will be a need to develop consistency in the general provision for carers and will ensure that we engage with individual carers on the care that they need. Therefore, first, there is the general provision that authorities will need to engage with carers on the development of their general policies. Secondly, it clearly states in this proposed Measure that the needs of individual carers and their engagement need to be looked at. So, I think that what we are seeking to do is to embrace all of that, and, for a strategy to make sense, we must embrace it.

[61] **Alun Davies:** If I could just take you back to the answer that you gave to Leanne Wood in terms of redress.

[62] **Gwenda Thomas:** In terms of what?

[63] **Alun Davies:** Redress. I am not convinced that there is sufficient redress provided for within this proposed Measure. The answer you gave to Leanne Wood was that strategies would need to comply with regulations, which would be made by Ministers. That is a fair statement to make and I have no complaints about it. However, it is not the strategy itself that really matters to people but how the strategy is delivered. Where there are failures to deliver on that strategy, there has to be redress available to individuals. This proposed Measure does not

Darren Millar: Ni fyddwn yn sicr yn awgrymu na ddylech gael mewnbwn lleol wrth ddatblygu gwasanaethau lleol neu na ddylech geisio diwallu anghenion gofawyr unigol lle bynnag y bo'n bosibl. Fodd bynnag, os mai eich nod penodol yw cysondeb, yna nid yw caniatáu 22 cyfres wahanol o drefniadau i fodoli ledled Cymru yn ffordd dda o fynd ati. Ni allaf weld sut bydd hynny'n darparu cysondeb ledled y wlad.

Gwenda Thomas: Mae'n rhaid i ni edrych ar anghenion unigol lle y bo hynny'n angenrheidiol—mae hynny'n hanfodol bwysig. Mae cwmpas y Mesur arfaethedig hwn a'r memorandwm esboniadol yn nodi'n glir y bydd angen datblygu cysondeb yn y ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer gofawyr a bydd yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â gofawyr unigol ynglŷn â'r gofal sydd ei angen arnynt. Felly, i ddechrau, mae'r ddarpariaeth gyffredinol y bydd angen i awdurdodau ymgysylltu â gofawyr ar ddatblygiad eu polisiau cyffredinol. Yn ail, mae'n nodi'n glir yn y Mesur arfaethedig hwn bod angen edrych ar anghenion gofawyr unigol a'u hymgysylltiad. Felly, credaf mai'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw cwmpasu hynny i gyd, ac, i strategaeth wneud synnwyr, mae'n rhaid i ni ei gwmpasu.

Alun Davies: A gaf fi fynd yn ôl at yr ateb a roddwyd gennych i Leanne Wood o ran camau unioni.

Gwenda Thomas: O ran beth?

Alun Davies: Camau unioni. Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod y Mesur arfaethedig hwn yn darparu'n ddigonol ar gyfer camau unioni. Yr ateb a roddwyd gennych i Leanne Wood oedd y byddai angen i strategaethau gydymffurfio â rheoliadau, a fyddai'n cael eu gwneud gan Weinidogion. Mae hynny'n ddatganiad teg i'w wneud ac nid oes gennyf unrhyw gwynion amdano. Fodd bynnag, nid y strategaeth ei hun sy'n bwysig mewn gwirionedd i bobl ond sut darperir y strategaeth. Lle mae methiannau i ddarparu'r strategaeth honno, mae'n rhaid bod modd i

seem to contain any means by which carers can seek redress. It does not seek to take action against authorities that fail to deliver, and that seems to be quite an omission in this legislation.

[64] **Gwenda Thomas:** Were a situation to arise where evidence presented to Welsh Ministers showed that a relevant authority was, for example, choosing not to implement a strategy, then, as a first step, I would envisage Ministers asking CSSIW or Healthcare Inspectorate Wales to investigate the matter further. In this context, we would be talking about situations where relevant authorities were potentially failing to comply with their legal duties rather than not complying with non-statutory guidance, for example. This is the fundamental difference, and it is an important difference. Any subsequent action by Welsh Ministers would then be informed as usual by CSSIW or HIW reports on findings, conclusions and recommendations.

[65] **Mr Carter:** The proposed Measure does not sit in isolation from the other frameworks that apply to social services, local authority functions and the NHS. Access to complaints procedures, to ombudsmen and to judicial review will remain the same. They will be subject to the normal inspection arrangements through CSSIW or HIW. Therefore, that context is there, but we do not have to explicitly refer to the fact within the proposed Measure, in the same way as we do not explicitly refer to the fact that you must operate within the legal framework of the Mental Capacity Act 2005. What we are saying is that if, in terms of redress or sanctions, you are talking about the potential for individuals or corporates to be subject to a separate legal process that could lead to fines or imprisonments, we do not think that that is appropriate. It sits within the normal governance arrangements that already apply to the NHS and local authorities.

[66] **Alun Davies:** I understand that and

unigolion gael cam wedi'i unioni. Ymddengys nad yw'r Mesur arfaethedig hwn yn cynnwys unrhyw fodd y gall gofawrwr geisio sicrhau bod cam yn cael ei unioni. Nid yw'n ceisio cymryd camau yn erbyn awdurdodau sy'n methu â darparu, ac ymddengys bod hynny'n dipyn o fwllch yn y ddeddfwriaeth hon.

Gwenda Thomas: Pe bai sefyllfa'n codi lle byddai tystiolaeth a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru yn dangos bod awdurdod perthnasol, er enghraifft, yn dewis peidio â gweithredu strategaeth, yna, fel cam cyntaf, byddwn yn rhagweld Gweinidogion yn gofyn i AGGCC neu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ymchwilio i'r mater ymhellach. Yn y cyd-destun hwn, byddem yn siarad am sefyllfaoedd lle yr oedd awdurdodau perthnasol yn methu o bosibl â chydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol yn hytrach na pheidio â chydymffurfio â chanllawiau anstatudol, er enghraifft. Dyma'r gwahaniaeth sylfaenol, ac mae'n wahaniaeth pwysig. Byddai unrhyw weithredu dilynol gan Weinidogion Cymru yn cael ei hysbysu fel arfer gan adroddiadau gan AGGCC neu AGIC ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion.

Mr Carter: Nid yw'r Mesur arfaethedig yn cael ei ystyried ar wahân i fframweithiau eraill sy'n berthnasol i wasanaethau cymdeithasol, swyddogaethau awdurdodau lleol a'r GIG. Bydd mynediad i weithdrefnau cwyno, i ombwdsmyrn ac i adolygiad barnwrol yn parhau'r un fath. Byddant yn amodol ar y trefniadau arolygu arferol drwy AGGCC neu AGIC. Felly, mae'r cyd-destun hwnnw yno, ond nid oes yn rhaid i ni gyfeirio'n benodol at y ffaith o fewn y Mesur arfaethedig, yn yr un ffordd nad ydym yn cyfeirio'n benodol at y ffaith bod yn rhaid i chi weithredu o fewn fframwaith cyfreithiol Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Yr hyn yr ydym yn ei ddweud yw os, o ran camau unioni neu sancsiynau, eich bod yn siarad am y potensial i unigolion neu gorfforaethau fod yn destun proses gyfreithiol ar wahân a allai arwain at ddirwyon neu garcharu, nid ydym yn credu fod hynny'n briodol. Mae'n rhan o drefniadau llywodraethu arferol sydd eisoes yn berthnasol i'r GIG ac awdurdodau lleol.

Alun Davies: Deallaf hynny a dyna pam fy

that is why I was talking specifically about this proposed Measure. It is interesting that there is no sanction in this proposed Measure to deal with a failure to deliver the strategies that have been drawn up under it. It is quite interesting that on the one hand, we are saying that we are giving people particular rights—and I understand why the Deputy Minister is not convinced about that approach—but on the other hand, we are creating some new statutory duties and saying, ‘Fine, do that, but if you do not, there is no sanction’.

[67] **Mr Carter:** If you look at the proposed Measure—

[68] **Alun Davies:** I have looked at it.

[69] **Mr Carter:** One of the unique features of the proposed Measure is that there is a statutory duty on relevant authorities to implement it. If you look at many of the other types of legislation and provisions that apply to the NHS and local authorities functions, you will see that they may set up frameworks, but there is not a legal duty to implement anything. In the proposed Measure, the failure to implement will mean a breach of your legal and statutory duties. That puts it, as the Deputy Minister said, in a slightly different context from non-compliance with non-statutory or general guidance.

[70] **Gwenda Thomas:** Furthermore, any complaints made by service users would be strengthened significantly because of the requirements of the regulations in any case.

[71] **Alun Davies:** Without seeing those regulations, it is very difficult for us to make a judgment on them.

[72] **Eleanor Burnham:** On the implementation of consistency, an example of best practice that has been rolled out in terms of other health services is that the chief executive officer of a particular health board—and I have in mind the CEO of the north Wales health board, which I will always call ‘north Wales’—is taking a lead on mental health provision across Wales. Do

mod yn siarad yn benodol am y Mesur arfaethedig hwn. Mae’n ddiddorol nad oes sancsiwn yn y Mesur arfaethedig hwn i ymdrin â methiant i ddarparu’r strategaethau sydd wedi’u llunio o dan y Mesur. Mae’n eithaf diddorol ar un llaw, ein bod yn dweud ein bod yn rhoi hawliau penodol i bobl—ac yr wyf yn deall pam nad yw’r Dirprwy Weinidog wedi’i argyhoeddi ynglŷn â’r dull hwnnw—ond ar y llaw arall, yr ydym yn creu rhai dyletswyddau statudol newydd ac yn dweud, ‘Iawn, gwnewch hynny, ond os nad ydych yn gwneud, nid oes sancsiwn’.

Mr Carter: Os edrychwch ar y Mesur arfaethedig—

Alun Davies: Yr wyf wedi edrych arno.

Mr Carter: Un o nodweddion unigryw’r Mesur arfaethedig yw bod dyletswydd statudol ar awdurdodau perthnasol i’w weithredu. Os edrychwch ar y mathau eraill o ddeddfwriaethau a darpariaethau sy’n berthnasol i’r GIG a swyddogaethau awdurdodau lleol, byddwch yn gweld eu bod yn sefydlu fframweithiau o bosibl, ond nid oes dyletswydd gyfreithiol i weithredu unrhyw beth. Yn y Mesur arfaethedig, bydd methu â gweithredu yn golygu eich bod yn torri’ch dyletswyddau cyfreithiol a statudol. Mae hynny, fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog, yn ei roi mewn cyd-destun ychydig yn wahanol i beidio â chydymffurfio â chanllawiau anstatudol neu gyffredinol.

Gwenda Thomas: Hefyd, byddai unrhyw gwynion a wnaed gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cryfhau’n sylweddol oherwydd gofynion y rheoliadau beth bynnag.

Alun Davies: Heb weld y rheoliadau hynny, mae’n anodd iawn i ni roi barn arnynt.

Eleanor Burnham: O ran gweithredu cysondeb, enghraifft o arfer gorau sydd wedi’i chyflwyno’n raddol o ran gwasanaethau iechyd eraill yw bod prif weithredwr bwrdd iechyd penodol—ac mae gennyf Brif Swyddog Gweithredol bwrdd iechyd gogledd Cymru mewn golwg, y byddaf yn cyfeirio ato bob amser fel ‘ogledd Cymru’—yn arwain y ffordd o ran

you envisage that you could do the same to ensure full implementation of these carers' rights and improvements?

[73] **Gwenda Thomas:** I am sure that the configuration of future partnerships is a matter that will develop as we develop and consult on the regulations. We are not being prescriptive in terms of saying that this or that authority must join forces with another. The configuration will be important; it will develop as the regulations develop.

[74] **Mr Carter:** If this will help, and subject to what Therese may say on the legal side, the provisions of section 5, which allow Ministers through regulations to include other matters in relation to strategies, would allow us to identify specific senior posts within local authorities or the NHS to take responsibility, if that were considered appropriate. At this stage, the appropriateness of and how to use the full details of the proposed Measure's powers are matters that we are still discussing with stakeholders. For example, as well as the chief executive of an NHS trust, we could also include a chief executive of a local authority or a director of social services. It is about balance and having discussions with stakeholders on the appropriate way to use the powers rather than saying, 'We have got the powers, so let us design a single approach'.

[75] Finally, if it would help, I was going to comment on this business of 'rights' and 'duties', but I am sorry to prolong matters. We talk about duties on statutory authorities, but carers look at that in terms of rights. For example, they would say, 'I have a right to information; I have a right to advice and I have a right to be consulted'. Part of it is about the language used and which stakeholders you talk to. I do not think that most carers would say, 'Under the provisions of section 3(2) of the proposed carers Measure, you have a duty to provide me with...'. They would talk in terms of rights. So, often, the enforcement of rights does not mean that you place a legal right on an individual citizen, but placing a legal duty on

darpariaeth iechyd meddwl ledled Cymru. A ydych yn rhagweld y gallech wneud yr un fath i sicrhau bod hawliau a gwelliannau'r gofalwyr yn cael eu gweithredu'n llawn?

Gwenda Thomas: Yr wyf yn sicr bod ffurfwedd partneriaethau'r dyfodol yn fater a fydd yn datblygu wrth i ni ddatblygu ac ymgynghori ar y rheoliadau. Nid ydym yn bod yn gyfarwyddol gan ddweud fod un awdurdod neu'r llall yn gorfod ymuno ag un arall. Bydd y ffurfwedd yn bwysig; bydd yn datblygu wrth i'r rheoliadau ddatblygu.

Mr Carter: Os bydd hyn yn helpu, ac yn amodol ar yr hyn y bydd Therese yn ei ddweud ar yr ochr gyfreithiol, byddai darpariaethau adran 5, sy'n caniatáu Gweinidogion drwy reoliadau i gynnwys materion eraill mewn perthynas â strategaethau, yn ein galluogi i nodi swyddi uwch penodol mewn awdurdodau lleol neu'r GIG i gymryd cyfrifoldeb, pe bai hynny'n cael ei ystyried yn briodol. Ar hyn o bryd, mae priodoldeb a sut mae defnyddio manylion llawn pwerau'r Mesur arfaethedig yn faterion yr ydym yn dal i'w trafod â rhanddeiliaid. Er enghraifft, yn ogystal â phrif weithredwr ymddiriedolaeth GIG, gallem hefyd gynnwys prif weithredwr awdurdod lleol neu gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n ymwneud â chydbwysedd a chynnal trafodaethau â rhanddeiliaid ar y ffordd briodol o ddefnyddio'r pwerau yn hytrach na dweud, 'Mae gennym y pwerau, felly gadewch i ni gynllunio dull sengl'.

I gloi, pe bai'n helpu, yr oeddwn am wneud sylw ar y busnes o 'hawliau' a 'dyletswyddau', ond mae'n ddrwg gennyf am fynd ymlaen. Yr ydym yn siarad am ddyletswyddau ar awdurdodau statudol, ond mae gofalwyr yn edrych ar hynny yn nhermau hawliau. Er enghraifft, byddent yn dweud, 'Mae gennyf hawl i wybodaeth; mae gennyf hawl i gyngor ac mae gennyf hawl i gymryd rhan mewn ymgynghoriad'. Mae rhan o hyn yn ymwneud â'r iaith a ddefnyddiwyd a chyda pha rhanddeiliaid yr ydych yn siarad. Ni chredaf y byddai'r mwyafrif o rhanddeiliaid yn dweud, 'O dan ddarpariaethau adran 3(2) y Mesur gofalwyr arfaethedig, mae gennych ddyletswydd i ddarparu.....'. Byddent yn siarad yn nhermau

an authority will translate into a right.

hawliau. Felly, yn aml, nid yw gorfodi hawliau yn golygu eich bod yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar ddinesydd unigol, ond bydd rhoi dyletswydd gyfreithiol ar awdurdod yn troi'n hawl.

[76] **Mark Isherwood:** This is just an observation: perhaps the Deputy Minister could consider whether ministerial interventions might fall within the scope of the Local Government (Wales) Measure 2009. That was just a thought. Leanne, we now come back to you.

Mark Isherwood: Sylw yn unig yw hwn: efallai y gallai'r Dirprwy Weinidog ystyried a allai ymyriadau gweinidogion syrthio o fewn cwmpas Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ystyriaeth yn unig oedd hynny. Leanne, yr ydym yn dod yn ôl atoch chi yn awr.

[77] **Leanne Wood:** We are moving on to a different area now. Evidence presented to the legislation committee that considered the LCO outlined some of the difficulties that particular groups of carers have in accessing information—specifically young carers, but also carers in a mutual-caring situation, such as an adult with Down's syndrome and an older parent.

Leanne Wood: Yr ydym yn symud ymlaen i faes arall yn awr. Yr oedd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor deddfwriaeth a oedd yn ystyried y GCD yn amlinellu rhai o'r anawsterau sy'n wynebu rhai grwpiau penodol o ofalwyr wrth gael mynediad i wybodaeth—gofalwyr ifanc yn benodol, ond hefyd gofalwyr mewn sefyllfa cyd-ofalu, fel oedolyn â syndrom Down a rhiant hŷn.

9.50 a.m.

[78] What provision is there in the proposed Measure to ensure that the carers' strategies produced by the relevant authorities will provide for advice and information services that are fully accessible to all carers, including young carers and those with learning disabilities?

Pa ddarpariaethau sydd yno yn y Mesur arfaethedig i sicrhau y bydd y strategaethau gofalwyr sy'n cael eu llunio gan yr awdurdodau perthnasol yn darparu ar gyfer gwasanaethau cyngor a gwybodaeth sy'n gwbl hygyrch i bob gofalwr, gan gynnwys gofalwyr ifanc a'r rhai hynny ag anabledau dysgu?

[79] **Gwenda Thomas:** This is very important indeed. I fully accept that advice and information services have to be fully accessible to carers, including young carers, which, as you said, they are intended to help. A known range of alternative approaches can be adopted to ensure that such information and advice is accessible to people with intellectual impairments. For example, as you have mentioned, some people with conditions such as Down's syndrome or sensory impairment, or young carers, may require plain English and easier-read approaches.

Gwenda Thomas: Mae hyn yn bwysig iawn yn wir. Derbyniaf fod yn rhaid i wasanaethau cyngor a gwybodaeth fod yn gwbl hygyrch i ofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, gan eu bod, fel y dywedaso, yno i'w helpu. Gellir mabwysiadu amrywiaeth hysbys o ddulliau amgen i sicrhau bod gwybodaeth a chyngor o'r fath ar gael i bobl â namau deallusol. Er enghraifft, fel y crybwyllaso, efallai y bydd angen mynd ati mewn Saesneg plaen sy'n haws i'w deall wrth gysylltu â phobl â chyflyrau fel syndrom Down neu nam ar y synhwyrau, neu ofalwyr ifanc.

[80] Section 5 of the proposed Measure gives Welsh Ministers regulatory powers to make further provisions on matters to be dealt with in a strategy. Ensuring the accessibility of advice and information will be one of those matters. I will ensure that that

Mae adran 5 y Mesur arfaethedig yn rhoi pwerau rheoleiddio i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau pellach ar faterion a fydd yn cael sylw mewn strategaeth. Bydd sicrhau bod cyngor a gwybodaeth yn hygyrch yn un o'r materion hynny. Byddaf yn sicrhau

is covered. The provision for arrangements to monitor and evaluate the implementation of the strategy will also be relevant there.

[81] **Ann Jones:** I would like to discuss the use of regulations, which you touched upon before the last question was asked. There appears to be an extensive use of regulations in the proposed Measure. Could you perhaps explain the reasons for this?

[82] **Gwenda Thomas:** The use of regulations has been considered a lot in the process of taking proposed Measures through—certainly in the case of proposed Measures in my portfolio. The development of regulations is important. It is important to allow the flexibility that we may need in the future. I can see that, perhaps, we would need to widen the scope of a regulation or look at the impact that it is having on the service. To have the opportunity to amend a regulation would make it easier to do that, rather than having to go back and amend the Measure itself. That scope for flexibility is important.

[83] **Ann Jones:** What you are saying is that you would use the regulation-making powers to change significantly, or alter the intention of, a proposed Measure at a later date.

[84] **Gwenda Thomas:** That could be done. However, I stress that the regulation-making powers in sections 2, 3, 4, 5 and 6 contain provisions for what should be included in regulations. That is clearly stated in what is before us today. The purpose of having regulation-making powers is to ensure that more flexibility can be achieved, as I have already said. In this proposed Measure, the regulation-making powers are quite specific as to what matters may be covered. It would, therefore, not be possible to broaden the scope of the proposed Measure or to alter significantly the scope of the proposed Measure by the use of regulations. I think that we accept that, as it is clearly stated in the papers before you.

[85] **Ann Jones:** Could you explain why you did not give consideration to the inclusion of the affirmative procedure in the

bod hynny'n cael sylw. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer trefniadau i fonitro a gwerthuso gweithrediad y strategaeth hefyd yn berthnasol yno.

Ann Jones: Yr wyf am drafod y defnydd o reoliadau, a grybwyllwyd gennych cyn gofyn y cwestiwn diwethaf. Ymddengys fod defnydd eang o reoliadau yn y Mesur arfaethedig. A allech o bosibl egluro'r rheswm am hyn?

Gwenda Thomas: Mae'r defnydd o reoliadau wedi'i ystyried dipyn yn y broses o gyflwyno Mesurau arfaethedig—yn sicr yn achos Mesurau arfaethedig yn fy mhortffolio i. Mae'n bwysig datblygu rheoliadau. Mae'n bwysig caniatáu'r hyblygrwydd a allai fod ei angen arnom yn y dyfodol. Gallaf weld, efallai, y byddai angen i ni ehangu cwmpas rheoliad neu edrych ar yr effaith y mae'n ei gael ar y gwasanaeth. Byddai cael y cyfle i wella rheoliad yn ei gwneud yn haws i ni wneud hynny, yn hytrach na gorfod mynd yn ôl a gwella'r Mesur ei hun. Mae'r cyfle hwnnw i gael hyblygrwydd yn bwysig.

Ann Jones: Yr hyn yr ydych yn ei ddweud yw y byddech yn defnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau i newid yn sylweddol, neu newid bwriad, Mesur arfaethedig yn ddiweddarach.

Gwenda Thomas: Gellid gwneud hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn pwysleisio fod y pwerau gwneud rheoliadau yn adrannau 2, 3, 4, 5 a 6 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer yr hyn y dylid ei gynnwys mewn rheoliadau. Nodir hynny'n glir yn yr hyn sydd ger ein bron heddiw. Diben cael pwerau gwneud rheoliadau yw sicrhau y gellir cael mwy o hyblygrwydd, fel y dywedais eisoes. Yn y Mesur arfaethedig hwn, mae'r pwerau gwneud rheoliadau yn eithaf penodol o ran y materion y gellid eu cynnwys. Ni fyddai, felly, yn bosibl ehangu cwmpas y Mesur arfaethedig neu newid cwmpas y Mesur arfaethedig yn sylweddol drwy ddefnyddio rheoliadau. Credaf ein bod yn derbyn hynny, gan ei fod yn cael ei nodi'n glir yn y papurau sydd ger eich bron.

Ann Jones: A allech egluro pam na wnaethoch ystyried cynnwys y weithdrefn gadarnhaol yn y Mesur arfaethedig, yn

proposed Measure, particularly in relation to the duty under section 2, which is the duty to produce a strategy? Why are we going to do that through the negative procedure and not the affirmative?

[86] **Gwenda Thomas:** This issue, of course, impinges on the last answer that I gave you. It is usual for regulations or Orders that amend any provision in an Act of Parliament or Assembly Measure to be subject to the affirmative procedure. That does not change. Other statutory instruments may be subject to the negative procedure. I have considered the nature of the regulation-making powers in this proposed Measure and I believe that, in each case, the use of the negative procedure is the most appropriate. The regulations will make detailed provision about the operation and implementation of the policy set out on the face of the proposed Measure. Regulations on the production of the strategy under section 2 will, for example, require the flexibility to determine which relevant authorities should be grouped together and the configuration across different geographical boundaries, as we have discussed. It is common practice for regulations of this nature to be subject to the negative procedure. The policy intention itself will be subject to the scrutiny process of the Assembly during the proposed Measure's legislative passage. The regulations will come before the Subordinate Legislation Committee—do I have the right name for the committee? It has changed now, has it not? The regulations will be subject to the consultation process, and I am absolutely committed, as are Ministers, to this consultation and to the regulatory impact assessment.

[87] **Ann Jones:** Let us move on to consultation with carers. Section 2(1) of the proposed Measure provides for regulations to ensure that carers' strategies set out how the relevant authorities will consult with carers. Given the importance of partnership working with carers in the delivery of services for them—I believe that that was highlighted during the LCO process—are you satisfied that the provision to ensure that authorities consult is strong enough?

enwedig mewn perthynas â'r ddyletswydd o dan adran 2, sef y ddyletswydd i lunio strategaeth? Pam ein bod am wneud hynny drwy'r weithdrefn negyddol ac nid yr un gadarnhaol?

Gwenda Thomas: Mae'r mater hwn, yn amlwg, yn gwrthdaro â'r ateb diwethaf a roddais i chi. Mae'n gyffredin i reoliadau neu Orchmynion sy'n gwella unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol neu Fesur Cynulliad fod yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol. Nid yw hynny'n newid. Gall offerynnau statudol eraill fod yn amodol ar y weithdrefn negyddol. Yr wyf wedi ystyried natur y pwerau gwneud rheoliadau yn y Mesur arfaethedig hwn a chredaf, ym mhob achos, mai defnyddio'r weithdrefn negyddol sydd fwyaf priodol. Bydd y rheoliadau'n gwneud darpariaeth fanwl ar gyfer gweithredu a gweithrediad y polisi a nodir ar wyneb y Mesur arfaethedig. Bydd yr hyblygrwydd i bennu pa awdurdodau perthnasol a ddylai gael eu grwpio gyda'i gilydd a'r ffurfwedd ar draws gwahanol ffiniau daearyddol, fel y trafodwyd eisoes, yn ofynnol ar gyfer y rheoliadau ar lunio'r strategaeth o dan adran 2, er enghraifft. Mae'n arfer cyffredin i reoliadau fel hyn fod yn amodol ar y weithdrefn negyddol. Bydd diben y polisi ei hun yn destun proses graffu'r Cynulliad yn ystod llwybr deddfwriaethol y Mesur arfaethedig. Bydd y rheoliadau'n cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth—a wyf wedi defnyddio'r enw iawn ar gyfer y pwyllgor? Mae wedi newid yn awr, onid ydyw? Bydd y rheoliadau'n destun proses ymgynghori, ac yr wyf yn hollol ymrwymedig, fel y mae Gweinidogion, i'r ymgynghoriad hwn ac i'r asesiad effaith rheoleiddiol.

Ann Jones: Gadewch i ni symud ymlaen at ymgynghori â gofalwyr. Mae adran 2(1) y Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer rheoliadau i sicrhau bod strategaethau gofalwyr yn nodi sut bydd yr awdurdodau perthnasol yn ymgynghori â gofalwyr. O ystyried pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â gofalwyr wrth ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer—credaf fod hyn wedi'i amlygu yn ystod y broses GCD—a ydych yn fodlon bod y ddarpariaeth i sicrhau bod awdurdodau yn ymgynghori yn ddigon cryf?

[88] **Gwenda Thomas:** Yes, I am. We are seeking to achieve, by way of the proposed Measure, the effective involvement and participation of carers as partners with the relevant authority in the provision of care for the person cared for and participation by the carer in the design, delivery, monitoring, and evaluation of services. The engagement of carers and their representatives would be a clear expectation. The term 'consultation' would embrace these concepts and the imposition of a duty to consult carries with it the implication that the duty must be proper and meaningful.

[89] Section 4 of the proposed Measure provides Welsh Ministers with the power to make regulations specifying the steps that relevant authorities may or must take for the purpose of consulting carers. Section 5 enables Welsh Ministers to make provision in regulations as to the consultation that must be undertaken before or during the preparation, implementation, or review of a strategy.

[90] **Ann Jones:** Can I just take you to section 4, where it states that relevant authorities must or may take steps when consulting carers? Would the use of the word 'may' give relevant authorities too much discretion? Should we firm that up and call it 'must'?

[91] **Gwenda Thomas:** 'Must or may' is intended to give Ministers the power to specify which steps must be taken as a requirement and which steps may be taken, depending on local circumstances. We touched on this earlier in regard to what may be a requirement according to local circumstances. It is not our intention to allow relevant authorities to opt out of the core elements of consultation that we shall propose in draft regulations after further discussions with stakeholders, including representatives of relevant authorities and carers. An example of what I mean by 'core elements' could be that the person who is consulted should have the right to expect a reasoned response to the points that he or she has made. At the same time, it is important that outside these core elements, relevant

Gwenda Thomas: Ydwyf. Yr ydym yn ceisio sicrhau, drwy'r Mesur arfaethedig, gyfranogiad a chyfraniad effeithiol gofaluwr fel partneriaid gyda'r awdurdod perthnasol wrth ddarparu gofal ar gyfer y person sy'n derbyn gofal a chyfranogiad y gofaluwr at gynllunio, darparu, monitro, a gwerthuso gwasanaethau. Byddai ymgysylltiad y gofaluwr a'u cynrychiolwyr yn ddisgwyliad amlwg. Byddai'r term 'ymgyngori' yn cynnwys y cysyniadau hyn ac mae gosod dyletswydd i ymgynghori yn arwain at y goblygiad bod yn rhaid i'r ddyletswydd fod yn briodol ac yn ystyrlon.

Mae adran 4 y Mesur arfaethedig yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau sy'n nodi'r camau y gall neu y mae'n rhaid i awdurdodau perthnasol eu cymryd er mwyn ymgynghori â gofaluwr. Mae adran 5 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau o ran yr ymgynghori sy'n rhaid ei wneud cyn neu yn ystod y gwaith o baratoi, gweithredu, neu adolygu strategaeth.

Ann Jones: A gaf fi gyfeirio at adran 4, lle mae'n nodi y caiff neu fod yn rhaid i awdurdodau perthnasol gymryd camau wrth ymgynghori â gofaluwr? A fyddai defnyddio'r gair 'caiff' yn rhoi gormod o ddisgresiwn i awdurdodau perthnasol? A ddylem ei wneud yn fwy cadarn a'i alw yn 'rhaid'?

Gwenda Thomas: Diben 'rhaid neu caiff' yw rhoi'r pŵer i Weinidogion nodi pa gamau sy'n rhaid eu cymryd fel gofyniad a pha gamau y gellir eu cymryd, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol. Crybwyllwyd hyn yn fras yn gynharach o ran beth allai fod yn ofyniad yn ôl amgylchiadau lleol. Nid ein bwriad yw gadael i awdurdodau lleol eithrio o elfennau craidd ymgynghori y byddwn yn eu cynnig mewn rheoliadau drafft ar ôl trafodaethau pellach â rhanddeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr awdurdodau perthnasol a gofaluwr. Gallai enghraifft o'r hyn yr wyf yn ei olygu wrth ddweud 'elfennau craidd' gynnwys y dylai'r person yr ymgynghorir ag ef gael yr hawl i ddisgwyl ymateb rhesymegol i'r pwyntiau y mae wedi'u gwneud. Ar yr un pryd, mae'n bwysig y tu allan i'r elfennau craidd hyn, fod awdurdodau

authorities retain discretion to take account of particular local circumstances. I think that this is a sensible approach.

[92] **Darren Millar:** Deputy Minister, further to Ann Jones's point about consultation, it does not say anywhere in the proposed Measure, as far as I can see, that the relevant authorities must react positively to the consultation with carers. For example, if it comes out strongly in a consultation exercise that carers believe that a service should to be delivered in a certain way, the relevant authorities do not have to have any regard to that whatsoever; they could do things very differently. Why is there not anything in the proposed Measure to say that the relevant authorities must have regard to the outcome of the consultation with carers?

[93] **Gwenda Thomas:** Section 2 is on the duty to produce a statutory. Section 2(1)(c) talks about ensuring:

[94] 'that the authorities consult carers before they make decisions of a general nature regarding the provision of services to or for carers and the persons they care for.'

10.00 a.m.

[95] Section 2(1)(b) also states:

[96] 'to ensure that, where it falls to any of those authorities to decide what services (if any) are to be provided to or for a carer or the person cared for, the carer is consulted before that decision is made'.

[97] So it is contained there. Also, in section 4, it is stated that:

[98] 'The Welsh Ministers may by regulations'—

[99] so this 'must' and 'may' will develop with the development of the regulations, which will themselves be subject to consultation.

[100] **Darren Millar:** With respect, Deputy Minister, there is nothing that says that the relevant authorities must pay regard to the outcome of that consultation. As Assembly

perthnasol yn cadw'r disgresiwn i ystyried amgylchiadau lleol penodol. Credaf fod hynny'n ddull synhwyrol.

Darren Millar: Ddirprwy Weinidog, gan ymhelaethu ar bwynt Ann Jones am ymgynghori, nid yw'n dweud yn unrhyw le yn y Mesur arfaethedig, hyd y gwelaf i, fod yn rhaid i'r awdurdodau perthnasol ymateb yn gadarnhaol i'r ymgynghoriad â gofalwyr. Er enghraifft, os yw'n gwbl amlwg yn dilyn ymarfer ymgynghori y dylid darparu gwasanaeth mewn ffordd benodol, nid oes yn rhaid i'r awdurdodau perthnasol ystyried hynny o gwbl; gallent wneud pethau'n wahanol iawn. Pam nad oes unrhyw beth yn y Mesur arfaethedig i ddweud bod yn rhaid i'r awdurdodau perthnasol ystyried canlyniad yr ymgynghoriad â gofalwyr?

Gwenda Thomas: Mae adran 2 ar y ddyletswydd i lunio strategaeth statudol. Mae adran 2(1)(c) yn sôn am sicrhau:

'bod yr awdurdodau yn ymgynghori a gofalwyr cyn eu bod yn gwneud penderfyniadau cyffredinol eu natur ynghylch darparu gwasanaethau i ofalwyr a'r personau y maent yn gofalu amdanynt.'

Mae adran 2(1)(b) hefyd yn nodi:

'i sicrhau, pan fo'n dod i ran unrhyw un o'r awdurdodau hynny i benderfynu pa wasanaethau (os o gwbl) sydd i'w darparu i ofalwr neu'r person y gofelir amdano, yr ymgynghorir a'r gofalwr cyn bod y penderfyniad hwnnw'n cael ei wneud'.

Felly, mae wedi'i gynnwys yno. Hefyd, yn adran 4, nodir:

'Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau'—

felly bydd 'rhaid' a 'caiff' yn datblygu gyda datblygiad y rheoliadau, a fydd eu hunain yn destun ymgynghoriad.

Darren Millar: Gyda pharch, Ddirprwy Weinidog, nid oes unrhyw beth i ddweud bod yn rhaid i'r awdurdodau perthnasol roi sylw priodol i ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw.

Members, we know that the people raise with us, on a regular basis, the frustration that they feel when they have been consulted and their views have been totally disregarded. They feel as if they have been through a process that has not added any value to the outcome of what they have been consulted upon. Would it not make more sense to insert a provision in the proposed Measure—I appreciate that you want carers involved in the development of these strategies and their implementation, and we all want to see carers involved—that would place a requirement on local authorities, NHS bodies and all the other relevant authorities to pay regard to the outcome of that consultation with carers?

[101] **Gwenda Thomas:** My view is, and I will ask for advice on it, that we can do that within the scope of the proposed Measure, and that the regulations will allow us to develop a requirement to engage with carers, to listen to them and take their views into account. I see nothing in what I have read that means that we cannot do that, Darren.

[102] **Darren Millar:** With respect, Deputy Minister, when the Local Government (Wales) Measure was being debated, one issue with that Measure that the Minister, quite rightly, accepted was that local authorities needed to have regard to the consultation undertaken with members of the public. The inclusion of a similar clause about the relevant authorities needing to have regard to the consultation that they have with carers would strengthen the proposed Measure.

[103] **Gwenda Thomas:** I respect the point that you make. I believe that the proposed Measure allows us to develop that requirement, but that is what this process is for, and I am quite happy to consider the points that you raise. I believe that we can develop that requirement, but I will consider it.

[104] **Darren Millar:** Thank you. Turning to joint working briefly, we know that joint working will be central to the delivery and development of these strategies under the

Fel Aelodau'r Cynulliad, gwyddom fod pobl yn crybwyll wrthym ni, yn rheolaidd, y rhwystredigaeth y maent yn ei theimlo ar ôl ymgynghori a bod eu safbwyntiau wedi'u diystyru'n llwyr. Teimlant fel eu bod wedi bod drwy broses nad yw wedi ychwanegu unrhyw werth at ganlyniad yr hyn yr ymgynghorwyd â hwy yn ei gylch. Oni fyddai'n gwneud mwy o synnwyr cynnwys darpariaeth yn y Mesur arfaethedig—yr wyf yn gwerthfawrogi eich bod am gynnwys gofawyr yn natblygiad y strategaethau hyn a'u gweithrediad, ac yr ydym i gyd am weld gofawyr yn cyfrannu—byddai hynny'n rhoi gofyniad ar awdurdodau lleol, cyrff y GIG a'r holl awdurdodau perthnasol eraill i roi sylw priodol i ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw â gofawyr?

Gwenda Thomas: Yn fy marn i, ac yr wyf am ofyn am gyngor ar hyn, gallwn wneud hynny o fewn cwrpas y Mesur arfaethedig, ac y bydd y rheoliadau'n caniatáu i ni ddatblygu gofyniad i ymgysylltu â gofawyr, i wrando arnynt ac ystyried eu safbwyntiau. Ni allaf weld unrhyw beth yn yr hyn yr wyf wedi'i ddarllen sy'n golygu na allwn wneud hynny, Darren.

Darren Millar: Gyda pharch, Ddirprwy Weinidog, pan drafodwyd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru), un mater gyda'r Mesur hwnnw a dderbyniodd y Gweinidog, yn gywir, oedd bod angen i awdurdodau lleol ystyried yr ymgynghori a wnaed gydag aelodau'r cyhoedd. Byddai cynnwys cymal tebyg o ran bod angen i awdurdodau perthnasol ystyried yr ymgynghori a wnaethant â gofawyr yn cryfhau'r Mesur arfaethedig.

Gwenda Thomas: Yr wyf yn parhau'r pwynt yr ydych yn ei wneud. Credaf fod y Mesur arfaethedig yn caniatáu i ni ddatblygu'r gofyniad hwnnw, ond dyna ddiben y broses hon, ac yr wyf yn fwy na bodlon ystyried y pwyntiau yr ydych yn eu codi. Credaf y gallwn ddatblygu'r gofyniad hwnnw, ond gallaf ei ystyried.

Darren Millar: Diolch. Gan droi at gydweithio'n gryno, gwyddom y bydd cydweithio'n ganolog i ddarpariaeth a datblygiad y strategaethau hyn o dan y Mesur

proposed Measure. How will you ensure that the relevant authorities work together effectively in the development and delivery of these strategies?

[105] **Gwenda Thomas:** Section 2(1) of the proposed Measure enables Welsh Ministers to make regulations requiring relevant authorities to work jointly to prepare and publish a strategy setting out how they will work together to provide appropriate information and advice to carers, and how they will consult with carers when making decisions about the provision of services to or for carers or the person cared for. Section 2(2) further provides that each relevant authority responsible for the preparation of the publication of the strategy must implement it. I believe that, with the development of the regulations, that requirement is quite clear.

[106] **Darren Millar:** You touched earlier on the sanctions and redress that might be available to Ministers in the event that the relevant authorities did not take their duties under this proposed Measure seriously. When a service is delivered on a joint basis between a local authority and an NHS body, for example, it becomes a little more confusing as to who you might sanction, does it not, Deputy Minister? How would you ensure that there are effective sanctions that can be taken where services are delivered jointly?

[107] **Gwenda Thomas:** This is about a strategy, is it not?

[108] **Darren Millar:** Yes, and the implementation of a strategy.

[109] **Gwenda Thomas:** It is about a strategy and the requirements of the strategy, not specifically a service, although the ultimate aim is to develop better services, of course. It is about a strategy and the configuration at that point will be clear, and all constituent authorities that have been involved in the development of that strategy will be clearly required to implement it. We have talked at length about the sanctions this morning. The usual way that service users would voice concerns is through a complaints procedure, and their complaints would, as I

arfaethedig. Sut byddwch yn sicrhau bod yr awdurdodau perthnasol yn cydweithio'n effeithiol i ddatblygu a darparu'r strategaethau hyn?

Gwenda Thomas: Mae adran 2(1) y Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol gydweithio i baratoi a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut byddant yn cydweithio i ddarparu gwybodaeth a chyingor priodol i ofalwyr, a sut byddant yn ymgynghori â gofalwyr wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaethau i neu ar gyfer gofalwyr neu'r person sy'n derbyn gofal. Mae adran 2(2) yn darparu ymhellach bod yn rhaid i bob awdurdod perthnasol sy'n gyfrifol am baratoi i gyhoeddi'r strategaeth ei gweithredu. Credaf, gyda datblygiad y rheoliadau, fod y gofyniad hwnnw'n eithaf clir.

Darren Millar: Yr ydych eisoes wedi crybwyll y sancsiynau a'r camau unioni a allai fod ar gael i Weinidogion pe na bai'r awdurdodau perthnasol yn cymryd eu dyletswyddau o dan y Mesur arfaethedig hwn o ddifrif. Pan ddarperir gwasanaeth ar y cyd rhwng awdurdod lleol a chorff GIG, er enghraifft, mae'n mynd ychydig yn fwy dryslyd ynglŷn â phwy y gallwch eu cosbi, onid ydyw, Ddirprwy Weinidog? Sut byddech yn sicrhau bod sancsiynau effeithiol y gellir eu cymryd pan ddarperir gwasanaethau ar y cyd?

Gwenda Thomas: Mae hyn yn ymwneud â strategaeth, onid ydyw?

Darren Millar: Ydy, a gweithredu strategaeth.

Gwenda Thomas: Mae'n ymwneud â strategaeth a gofynion y strategaeth, nid gwasanaeth yn benodol, er mai'r nod yn y pen draw yw datblygu gwell gwasanaethau, wrth gwrs. Mae'n ymwneud â strategaeth a bydd y ffurfwedd ar yr adeg honno'n glir, a bydd gofyniad clir ar bob awdurdod cyfansoddol sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth honno i'w gweithredu. Yr ydym wedi siarad yn hir am y sancsiynau'r bore hwn. Y ffordd arferol y byddai defnyddwyr gwasanaethau yn mynegi pryderon fyddai drwy weithdrefn gwyno, a

have said, be fundamentally strengthened, because there is that requirement in law to produce the strategy and to monitor, evaluate and implement it.

[110] **Mr Carter:** I would like to comment on that as well. What you are touching upon, almost, is the governance arrangements for the delivery of a service where more than one partner is involved. There is the capability within the proposed Measure, using the section 5 powers, to make that a requirement of the strategy where a joint service is being delivered. That is about the governance arrangements that surround it. More broadly, for social services and the national health service, there are powers under section 33 to enter into legal agreements for a single service. So, there are many ways of approaching it. I take the point about the concern about governance and that everyone is clear about who is responsible for what in a joint service arrangement.

[111] **Darren Millar:** That is precisely the point that I was trying to make, but I perhaps did not make it as clearly as that, in terms of who is responsible for the delivery of certain parts of the strategy or the development of it. I was trying to touch on the issue of whether, if an NHS body, for example, is taking the lead on the development of a strategy, it would ultimately be responsible, even if a local authority was at fault.

[112] **Mr Carter:** Much will depend on what the strategy is and who is charged with the delivery of which part of it. However, where any of the responsible authorities have a joint strategy, each one has a legal duty to implement, and some of the other legal duties apply. So, where, within a strategy, it is clearly down to an identified responsible partner to deliver, that partner has the legal duty to implement.

[113] **Gwenda Thomas:** In my view, the fact that the NHS might be a lead partner does not make the local authority any less of a partner, and the requirement on the local authority is no less. Also, it would cover

byddai eu cwynion, fel y dywedais, yn cael eu hatgyfnerthu'n sylfaenol, oherwydd bod y gofyniad hwnnw yn ôl y gyfraith i lunio, monitro, gwerthuso a gweithredu'r strategaeth.

Mr Carter: Hoffwn wneud sylw ar hynny hefyd. Yr hyn yr ydych yn ei awgrymu, bron iawn, yw trefniadau llywodraethu ar gyfer darparu gwasanaethau lle mae mwy nag un partner yn cymryd rhan. Mae gan y Mesur arfaethedig, drwy ddefnyddio pwerau adran 5, y gallu i wneud hynny'n ofyniad o'r strategaeth lle mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu ar y cyd. Mae hynny'n ymwneud â'r trefniadau llywodraethu cysylltiedig. Yn fwy cyffredinol, o ran gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd gwladol, mae pwerau o dan adran 33 i ymrwymo i gytundebau cyfreithiol ar gyfer gwasanaeth unigol. Felly, mae sawl ffordd o fynd ati. Yr wyf yn derbyn y pwynt am y pryder ynghylch llywodraethu a bod pawb yn glir ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am beth mewn trefniant gwasanaeth ar y cyd.

Darren Millar: Dyna'r union bwynt yr oeddwn yn ceisio'i wneud, ond efallai na lwyddais i'w wneud mor glir â hynny, o ran pwy sy'n gyfrifol am ddarparu rhannau penodol o'r strategaeth neu ei datblygiad. Yr oeddwn yn ceisio trafod sefyllfa pe bai corff GIG, er enghraifft, yn arwain y ffordd ar ddatblygiad strategaeth, a fyddai'n gyfrifol yn y pen draw, hyd yn oed pe bai awdurdod lleol ar fai.

Mr Carter: Bydd llawer yn dibynnu ar beth yw'r strategaeth a phwy sy'n gyfrifol am ddarparu pa ran ohoni. Fodd bynnag, pan fo gan unrhyw un o'r awdurdodau cyfrifol strategaeth ar y cyd, mae gan bob un ddyletswydd gyfreithiol i weithredu, ac mae rhai o'r dyletswyddau cyfreithiol eraill yn berthnasol. Felly, lle, o fewn strategaeth, ei bod yn amlwg mai partner cyfrifol a nodir sy'n gyfrifol am ddarparu'r strategaeth, mae gan y partner ddyletswydd gyfreithiol i'w gweithredu.

Gwenda Thomas: Yn fy marn i, nid yw'r ffaith y gallai'r GIG fod yn bartner arweiniol yn golygu bod yr awdurdod lleol yn bartner llai, ac nid oes llai o ofynion ar yr awdurdod lleol. Hefyd, byddai'n cynnwys

services delivered by a third party, for example. I see, quite clearly, that there needs to be a lead, but both partners have the same requirement to deliver with regard to the regulations that will govern the strategy.

[114] **Darren Millar:** Do you envisage a time when NHS organisations will not be the lead authorities in the development and implementation of these strategies?

[115] **Gwenda Thomas:** There could be a situation where the configuration would be two or more local authorities. I do not think that that is likely, but it is possible. The requirement to produce and implement that strategy would be in no way diminished if the NHS were not the lead authority.

[116] **Eleanor Burnham:** This question is similar to my earlier question. I gave the example of Mary Burrows, the chief executive of the north Wales health board, taking a lead on mental health matters, which, in the past, have been a problem for us all. That is easily done in north Wales, in many respects, because the health authority covers the area and there has been a lot of co-operation and joint working and joint strategies in north Wales. However, in other parts of the country, it may not be quite so natural.

[117] **Gwenda Thomas:** Quite, and that is why we have developed this framework to allow a configuration that best produces a strategy in any area. The fact that we envisage the NHS leading on this comes from what has been said to us by carers and by the stakeholder group, which is that, across the services, carers have more contact with the NHS than with local authorities.

10.10 a.m.

[118] **Alun Davies:** With regard to the duty set out in section 2 of the proposed Measure to produce a strategy, you list the relevant authorities in section 2(3). That is quite a novel approach, is it not? Normally, Ministers would come here and say that they did not wish to list bodies in the proposed Measure, but leave that to regulation, so that they could change the bodies covered by the

gwasanaethau a ddarperir gan drydydd parti, er enghraifft. Yr wyf yn gweld, yn eithaf amlwg, bod angen arweinydd, ond mae gan y naill bartner a'r llall yr un gofyniad i ddarparu o ran y rheoliadau a fydd yn llywodraethu'r strategaeth.

Darren Millar: A ydych yn rhagweld adeg lle nad sefydliadau'r GIG fydd yr awdurdodau arweiniol yn natblygiad a gweithrediad y strategaethau hyn?

Gwenda Thomas: Gellid cael sefyllfa lle gallai'r ffurfwedd gynnwys dau awdurdod lleol neu fwy. Ni chredaf fod hynny'n debygol, ond mae'n bosibl. Ni fyddai'r gofyniad i lunio a gweithredu'r strategaeth honno'n cael ei leihau mewn unrhyw ffordd pe na bai'r GIG oedd yr awdurdod arweiniol.

Eleanor Burnham: Mae'r cwestiwn hwn yn debyg i'm cwestiwn cynharach. Rhoddais yr enghraifft o Mary Burrows, prif weithredwr bwrdd iechyd gogledd Cymru, yn arwain y ffordd o ran materion iechyd meddwl, sydd, yn y gorffennol, wedi bod yn broblemau i ni gyd. Mae'n hawdd gwneud hynny yng ngogledd Cymru, i raddau helaeth, gan fod yr awdurdod iechyd yn cwmpasu'r ardal ac mae llawer o gydweithredu a chydweithio a strategaethau ar y cyd wedi bod yn y gogledd. Fodd bynnag, mewn rhannau eraill o'r wlad, efallai nad yw'n hollol naturiol.

Gwenda Thomas: Yn union, a dyna pam ein bod wedi datblygu'r fframwaith hwn i ganiatáu ffurfwedd sy'n llunio, yn y ffordd orau, strategaeth mewn unrhyw faes. Mae'r ffaith ein bod yn rhagweld y bydd y GIG yn arwain y ffordd ar hyn yn deillio o'r hyn y mae gofalywyr a'r grŵp rhanddeiliaid wedi'i ddweud wrthym, sef, ar draws y gwasanaethau, bod gan ofalwyr fwy o gyswllt â'r GIG na gydag awdurdodau lleol.

Alun Davies: O ran y ddyletswydd a nodir yn adran 2 y Mesur arfaethedig i lunio strategaeth, yr ydych yn rhestru'r awdurdodau perthnasol yn adran 2(3). Mae hynny'n ddull cymharol newydd, onid ydyw? Fel arfer, byddai Gweinidogion yn dod yma a dweud nad oeddynt am restru cyrff yn y Mesur arfaethedig, ond gadael hynny i reoliadau, er mwyn iddynt allu newid y cyrff

legislation if circumstances change. Why have you taken this different approach with this proposed Measure?

[119] **Gwenda Thomas:** We are specifying the NHS bodies and local government in the first instance. There is a clear list there of the bodies that will be required to produce a strategy under the proposed Measure. I do not quite understand what you are getting at.

[120] **Alun Davies:** If, for example, we took a rights-based approach, any organisation or business would have a responsibility to meet the rights of a particular group, which, in this case, would be carers. We are not doing that; we are placing duties on particular public bodies. You are listing those, and you have listed four categories of public bodies. As I understand it, without returning to the Assembly to seek primary legislation, you do not have the means to change that list of relevant authorities. Why are you taking the approach of including those in the proposed Measure itself? I have sat on numerous committees to which Ministers have come and said that the last thing that they want to do is to make the list in the Measure itself, because they want the freedom to be able to change the list of designated bodies by regulation. This is the first time that I have seen a list of authorities in a proposed Measure. I am wondering why you have done that.

[121] **Gwenda Thomas** This proposed Measure is intended to cover the NHS and local authorities with regard to any direct or indirect services they provide. That is what the proposed Measure is about. It covers all of the services of the NHS and local government. Is there a particular issue that you would like me to think about? Is there a particular NHS body you are thinking of, such as the ambulance trust? Do you want us to consider the scope? With regard to developing a strategy, the proposed Measure is intended to require in law that the NHS and local authorities work together to produce these strategies. This is what carers are telling us about the information they need and when they need it. However, if you want us to consider other bodies, such as the ambulance

a oedd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth pe bai amgylchiadau'n newid. Pam yr ydych wedi defnyddio'r dull gwahanol hwn gyda'r Mesur arfaethedig hwn?

Gwenda Thomas: Yr ydym yn nodi cyrff y GIG a llywodraeth leol yn y lle cyntaf. Mae rhestr glir yno o'r cyrff a bydd gofyn iddynt lunio strategaeth o dan y Mesur arfaethedig. Nid wyf yn deall eich pwynt yn iawn.

Alun Davies: Pe byddem, er enghraifft, yn defnyddio dull seiliedig ar hawliau, byddai gan unrhyw sefydliad neu fusnes gyfrifoldeb i fodloni hawliau grŵp penodol, sef, yn yr achos hwn, gofalwyr. Nid ydym yn gwneud hynny; yr ydym yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus penodol. Yr ydych yn rhestru'r rheini, ac yr ydych wedi rhestru pedwar categori o gyrff cyhoeddus. Fel y deallaf, heb ddychwelyd at y Cynulliad i geisio deddfwriaeth sylfaenol, nid oes gennych y modd i newid y rhestr honno o awdurdodau perthnasol. Pam yr ydych yn defnyddio'r dull o gynnwys y rheini yn y Mesur arfaethedig ei hun? Yr wyf wedi eistedd ar sawl pwyllgor lle mae Gweinidogion wedi dod a dweud mai'r peth olaf y maent am ei wneud yw gwneud y rhestr yn y Mesur ei hun, oherwydd eu bod am gael y rhyddid i allu newid y rhestr o gyrff dynodedig drwy reoleiddio. Dyma'r tro cyntaf i mi weld rhestr o awdurdodau mewn Mesur arfaethedig. Pam eich bod wedi gwneud hynny?

Gwenda Thomas Bwriad y Mesur arfaethedig hwn yw cynnwys y GIG ac awdurdodau lleol o ran unrhyw wasanaethau uniongyrchol neu anuniongyrchol a ddarparant. Dyna yw diben y Mesur arfaethedig. Mae'n cynnwys holl wasanaethau'r GIG a llywodraeth leol. A oes mater penodol yr hoffech i mi ei ystyried? A ydych yn meddwl am gorff GIG penodol, fel yr ymddiriedolaeth ambiwlans? A ydych am i ni ystyried y cwmpas? O ran datblygu strategaeth, bwriad y Mesur arfaethedig yw ei gwneud yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r GIG ac awdurdodau lleol gydweithio i lunio'r strategaethau hyn. Dyna y mae gofalwyr yn ei ddweud wrthym am y wybodaeth sydd ei hangen arnynt a phryd y maent ei hangen. Fodd bynnag, os ydych am i ni ystyried cyrff

trust, I would certainly be prepared to take the issue away and think about it.

[122] **Mr Carter:** The provisions of the proposed Measure are within the legal advice we have had. Had we presented a proposed Measure that talked about responsible authorities without defining what we were talking about, we would probably be having a different discussion at this committee meeting. This is within the devolved responsibilities the Assembly has. I do not think that carers have identified another statutory agency that we could embrace. There are some that they would like to embrace, such as the Benefits Agency, but we are constrained by the devolved responsibilities of the National Assembly. That is the point.

[123] **Alun Davies:** I understand the point about the overall settlement. However, it is surprising that there is not a further subsection in the proposed Measure that would empower the Minister to bring forward regulations to amend the list. That is what we are used to seeing in legislation. If the Deputy Minister is agreeing to consider—

[124] **Gwenda Thomas:** I will just take advice on this.

[125] **Ms Gray:** The purpose of the proposed Measure is to address carers information strategies, and we felt that those two broad categories—the NHS and local authorities—were sufficient. If we wanted to extend the same kind of things to other bodies, we would have to bring forward another proposed Measure. This proposed Measure is limited to those. Just as a point of clarification, it already covers special health authorities and NHS trusts, therefore it will cover the ambulance trust if there is any concern about that.

[126] **Alun Davies:** Thank you for that. In terms of the regulatory impact assessment that you have provided to us and section 3, 'Appropriate information and advice', in the explanatory memorandum where you note the cost, I would be grateful for some clarification, but I assume that, in paragraph 8.11, you are referring to the net costs to the national health service for the provision of

eraill, fel yr ymddiriedolaeth ambiwlans, byddwn yn sicr yn barod i ystyried y mater.

Mr Carter: Mae darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn cyd-fynd â'r cyngor cyfreithiol yr ydym wedi'i dderbyn. Pe baem wedi cyflwyno Mesur arfaethedig a oedd yn siarad am awdurdodau cyfrifol heb ddiffinio'r hyn yr oeddem yn ei drafod, mae'n debyg y byddem yn cael trafodaeth wahanol yn y cyfarfod pwyllgor hwn. Mae hyn o fewn y cyfrifoldebau datganoledig sydd gan y Cynulliad. Ni chredaf fod gofawyr wedi nodi asiantaeth statudol arall y gallem ei chynnwys. Mae rhai yr hoffent eu cynnwys, fel yr Asiantaeth Budd-daliadau, ond yr ydym yn cael ein cyfyngu gan gyfrifoldebau datganoledig y Cynulliad Cenedlaethol. Dyna'r pwynt.

Alun Davies: Deallaf y pwynt am y setliad cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n syndod nad oes isadran bellach yn y Mesur arfaethedig a fyddai'n galluogi'r Gweinidogion i gyflwyno rheoliadau i wella'r rhestr. Dyna'r ydym yn ei weld fel arfer mewn deddfwriaeth. Os yw'r Dirprwy Weinidog yn cytuno ystyried—

Gwenda Thomas: Yr wyf am dderbyn cyngor ar hyn.

Ms Gray: Diben y Mesur arfaethedig yw mynd i'r afael â strategaethau gwybodaeth gofawyr, ac yr oeddem yn teimlo bod y ddau gategori cyffredinol hynny—y GIG ac awdurdodau lleol—yn ddigonol. Pe baem am ymestyn yr un math o bethau i gyrff eraill, byddai'n rhaid i ni gyflwyno Mesur arfaethedig arall. Mae'r Mesur arfaethedig hwn yn gyfyngedig i'r rheini. Er mwyn egluro, mae eisoes yn cynnwys awdurdodau iechyd arbennig ac ymddiriedolaethau'r GIG, felly bydd yn cynnwys yr ymddiriedolaeth ambiwlans os oes unrhyw bryder am hynny.

Alun Davies: Diolch am hynny. O ran yr asesiad effaith rheoleiddiol yr ydych wedi'i ddarparu i ni ac adran 3, 'Gwybodaeth briodol a chyngor priodol', yn y memorandwm esboniadol lle yr ydych yn nodi'r gost, byddwn yn ddiolchgar am beth eglurhad, ond yr wyf yn rhagdybio, ym mharagraff 8.11, eich bod yn cyfeirio at y costau net i'r gwasanaeth iechyd gwladol ar

appropriate information and advice as defined in section 3.

gyfer darparu gwybodaeth briodol a chyngor priodol fel y diffinnir hwy yn adran 3.

[127] **Gwenda Thomas:** Could you repeat that, please?

[128] **Gwenda Thomas:** A allwch ddweud hynny eto, os gwelwch yn dda?

[129] **Alun Davies:** In paragraph 8.11 of the regulatory impact assessment, you list the implementation costs across Wales as varying from £0.9 million in year 1 to £3.2 million in year 3. My assumption is that those are the net costs to the national health service.

Alun Davies: Ym mharagraff 8.11 yr asesiad effaith rheoleiddiol, yr ydych yn rhestru bod y costau gweithredu ledled Cymru yn amrywio rhwng £0.9 miliwn ym mlwyddyn 1 i £3.2 miliwn ym mlwyddyn 3. Yr wyf yn rhagdybio mai'r rheini yw'r costau net i'r gwasanaeth iechyd gwladol.

[130] **Gwenda Thomas:** That is the resource that we intend to make available: £900,000 in the first year, and £1.7 million and £3.2 million in the following two years. That money will be used to resource the strategies. The intention is that if that money was made available to the NHS as the lead for the strategy, it would not be for the health service alone and it would be a matter for the health service to distribute that fairly in accordance with the strategy that develops. Also, if it is intended for the service to be provided by the voluntary sector, there would be a responsibility to make that resource available to the voluntary partner delivering that service. We have based the cost assessment on the Scottish information strategy, which is the only comparable one that we have to work on, although I believe that this proposed Measure is wider than an information strategy. However, we have based it on the most robust estimates possible.

Gwenda Thomas: Dyna'r adnodd yr ydym yn bwriadu ei ddarparu: £900,000 yn y flwyddyn gyntaf, ac £1.7 miliwn a £3.2 miliwn yn y ddwy flynedd ganlynol. Bydd yr arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio i ariannu'r strategaethau. Pe bai'r arian ar gael i'r GIG fel y corff arweiniol ar gyfer y strategaeth, y bwriad yw na fyddai ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn unig a chyfrifoldeb y gwasanaeth iechyd fyddai dosbarthu hynny'n deg yn unol â'r strategaeth sy'n datblygu. Hefyd, os bwriedir i'r gwasanaeth gael ei ddarparu gan y sector gwirfoddol, byddai cyfrifoldeb i sicrhau bod yr adnodd hwnnw ar gael i'r partner gwirfoddol sy'n darparu'r gwasanaeth hwnnw. Yr ydym wedi seilio'r asesiad cost ar strategaeth wybodaeth yr Alban, sef yr unig un y gallwn gymharu â hi, er y credaf fod y Mesur arfaethedig hwn yn ehangach na strategaeth wybodaeth. Fodd bynnag, yr ydym wedi'i seilio ar yr amcangyfrifon mwyaf cadarn posibl.

[131] **Alun Davies:** Therefore, just to clarify your answer, Deputy Minister, the £3.2 million in year 3 is a pot of money that will be distributed to all providers, and the NHS is a channelling mechanism for that, rather than simply a destination.

Alun Davies: Felly, er mwyn egluro'ch ateb, Ddirprwy Weinidog, mae'r £3.2 miliwn ym mlwyddyn 3 yn gronfa o arian a fydd yn cael ei dosbarthu i bob darparwr, ac mae'r GIG yn fecanwaith i sianelu hynny, yn hytrach na diwedd y daith yn unig.

[132] **Gwenda Thomas:** Yes, that is right.

Gwenda Thomas: Ydy, mae hynny'n iawn.

[133] **Alun Davies:** Thank you for that. I am interested in how robust you can be with this, Deputy Minister, because according to section 3(2), you will, by regulation, actually be making

Alun Davies: Diolch am hynny. Mae gennyf ddiddordeb ym mha mor gadarn y gallwch fod gyda hyn, Ddirprwy Weinidog, oherwydd yn ôl adran 3(2), byddwch, drwy reoliadau, yn gwneud

[134] 'further provision about what constitutes appropriate information and advice for the purposes of that section.'

'darpariaeth bellach ynghylch beth sy'n wybodaeth briodol a chyngor priodol at ddibenion yr adran honno.'

[135] It seems difficult, therefore, to be able to come up with figures and a robust analysis of the impact because we do not yet know how you will define appropriate information and advice.

[136] **Gwenda Thomas:** As I have said, we have based it on the Scottish information strategy, which is the only one that we can use for comparison purposes. There is no other one. We have to be bold and brave enough to set our scene in Wales to develop this. To the best of our ability, we have assessed the costs on the basis of the Scottish strategy and the views of the stakeholders that we have consulted as to what they expect of the strategy.

[137] **Alun Davies:** You also said in that reply, Minister, that this is more than simply an information strategy.

[138] **Gwenda Thomas:** Yes. It is the engagement—

[139] **Alun Davies:** We have the Scottish information strategy as a basis, and I accept the use of that in the circumstances, but how did you therefore analyse the difference between the Scottish strategy and the more ambitious strategy that you have included in this legislation? How did you find the difference between the two?

[140] **Gwenda Thomas:** We based this on the advice of the stakeholder group that has been working with us on the development of this proposed Measure, which included the NHS, the WLGA, carers and carers' organisations.

10.20 a.m.

[141] We have made that, and how we got our advice, clear in the written statement that we submitted to the committee. On that basis, and the work that officials have done to compare it with the Scottish strategy, these are the most robust estimates that we could provide.

[142] **Mr Carter:** As with all estimating exercises, when you do not know the detail of what the final product will be, most of it will,

Mae'n ymddangos, felly, ei bod yn anodd cyflwyno ffigurau a dadansoddiad cadarn o'r effaith oherwydd nad ydym yn gwybod eto sut byddwch yn diffinio gwybodaeth a chynngor priodol.

Gwenda Thomas: Fel y dywedais, yr ydym wedi seilio hyn ar strategaeth wybodaeth yr Alban, sef yr unig un y gallwn ei defnyddio at ddibenion cymharu. Nid oes un arall. Mae'n rhaid i ni fod yn ddigon beiddgar a dewr i dorri'n cwys yng Nghymru i ddatblygu hyn. Hyd eithaf ein gallu, yr ydym wedi asesu'r costau ar sail strategaeth yr Alban a safbwyntiau'r rhanddeiliaid yr ydym wedi ymgynghori â hwy o ran yr hyn y maent yn ei ddisgwyl o'r strategaeth.

Alun Davies: Dywedasoch hefyd yn yr ymateb hwnnw, Weinidog, bod hon yn fwy na strategaeth wybodaeth yn unig.

Gwenda Thomas: Ydy. Mae'n ymwneud â'r ymgysylltu—

Alun Davies: Mae gennym strategaeth wybodaeth yr Alban fel sail, ac yr wyf yn derbyn defnyddio honno o dan yr amgylchiadau, ond sut felly y dadansoddoch y gwahaniaeth rhwng strategaeth yr Alban a'r strategaeth fwy uchelgeisiol yr ydych wedi'i chynnwys yn y ddeddfwriaeth hon? Sut gwelsoch chi'r gwahaniaeth rhwng y ddwy?

Gwenda Thomas: Seiliwyd hyn gennym ar gyngor y grŵp rhanddeiliaid sydd wedi bod yn gweithio gyda ni i ddatblygu'r Mesur arfaethedig hwn, a oedd yn cynnwys y GIG, CLILC, gofawyr a sefydliadau gofawyr.

Yr ydym wedi nodi hynny, a sut y cawsom ein cyngor, yn glir yn y datganiad ysgrifenedig a gyflwynwyd gennym i'r pwyllgor. Ar y sail honno, a'r gwaith y mae swyddogion wedi'i wneud i'w chymharu â strategaeth yr Alban, dyma'r amcangyfrifon mwyaf cadarn y gallem eu darparu.

Mr Carter: Fel gyda phob ymarfer amcangyfrif, pan nad ydych yn gwybod manylion y cynnyrch terfynol, bydd y rhan

ultimately, be designed within the strategy and will depend on the priorities and the results of the consultation—you have to make a number of assumptions about what it will look like and you then look at comparative models, where you can, such as the strategy in Scotland. It is important that, at one level, if the assumptions are significantly wrong, the normal mechanisms exist—through the revenue support grant process for local authorities and so on—for services or the authorities to come back to us and tell us that we have considerably underestimated the costs, and that, therefore, we need to provide more resources. That process will still be in place. I almost made the mistake of thinking that authorities would come to us and say, ‘You have overestimated the costs, so we will give this money back to you,’ but I do not envisage that happening.

[143] **Alun Davies:** The issue that you have raised is the great fear, and the reason why this question is important. If the Government has made a misestimation of the cost, relevant authorities such as the NHS or local government will have to find the money from other sources, at a time when there are probably more demands on their services than ever before, but they have fewer resources, proportionately, than ever before. You are imposing a new statutory duty on public bodies, and it is therefore incumbent on you as the Government to have robust means of ensuring that authorities are adequately compensated to enable them to deliver those services without having to reduce service provision in other areas.

[144] **Mr Carter:** I will make two observations on that. In all the discussions with stakeholders that we have had up to now, which have involved the NHS and the WLGA, I do not think that anyone has fundamentally challenged the level of resource. There may be something like that as we move further down the stream. Although we talk in terms of a global sum, how that money is then used is dependent on the strategy. It may be, for example, that within a strategy that is devised not all the relevant organisations have an activity that requires funding, and part of this is about how we can

fwyaf ohono yn y pen draw, wedi’i gynllunio o fewn y strategaeth a bydd yn dibynnu ar flaenoriaethau a chanlyniadau’r ymgynghoriad—mae’n rhaid i chi wneud nifer o ragdybiaethau ynglŷn â sut bydd yn edrych ac yna yr ydych yn edrych ar fodolau cymharol, lle y gallwch, fel y strategaeth yn yr Alban. Mae’n bwysig, ar un lefel, os yw’r rhagdybiaethau’n sylweddol anghywir, mae’r mecanweithiau arferol yn bodoli-drwy’r broses grant cymorth refeniw ar gyfer awdurdodau lleol ac ati—ar gyfer gwasanaethau neu’r awdurdodau i ddod yn ôl atom ni a dweud wrthym ein bod wedi tanamcangyfrif y costau cryn dipyn, ac, felly, bod angen i ni ddarparu mwy o adnoddau. Bydd y broses honno ar waith o hyd. Bu bron i mi wneud y camgymeriad o feddwl y byddai awdurdodau yn dod atom ni a dweud, ‘Yr ydych wedi goramcangyfrif y costau, felly byddwn yn rhoi’r arian hyn yn ôl i chi,’ ond nid wyf yn rhagweld hynny’n digwydd.

Alun Davies: Y mater yr ydych wedi’i godi yw’r ofn mawr, a’r rheswm pam mae’r cwestiwn hwn yn bwysig. Os yw’r Llywodraeth wedi cam-amcangyfrif y gost, bydd yn rhaid i awdurdodau perthnasol fel y GIG neu lywodraeth leol ganfod yr arian o ffynonellau eraill, ar adeg pan fo mwy o alw am eu gwasanaethau nag erioed o bosibl, ond bod ganddynt lai o adnoddau, yn gymesurol, nag erioed. Yr ydych yn gosod dyletswydd statudol newydd ar gyrff cyhoeddus, ac felly mae’n ddyletswydd arnoch chi fel y Llywodraeth i gael modd cadarn o sicrhau bod awdurdodau’n cael iawndal digonol i’w galluogi i ddarparu’r gwasanaethau hynny heb orfod lleihau darpariaeth gwasanaethau mewn meysydd eraill.

Mr Carter: Byddaf yn gwneud dau sylw ar hynny. Yn yr holl drafodaethau â rhanddeiliaid yr ydym wedi’u cael hyd yma, sydd wedi cynnwys y GIG a CLILC, ni chredaf fod unrhyw un arall wedi herio lefel yr adnodd yn y bôn. Efallai y bydd sefyllfa fel honno wrth i ni symud ymhellach ymlaen. Er ein bod yn siarad yn nhermau swm bydeang, mae sut bydd yr arian hwnnw’n cael ei ddefnyddio wedyn yn dibynnu ar y strategaeth. Efallai, er enghraifft, o fewn strategaeth sydd wedi’i dyfeisio na fydd gan yr holl sefydliadau perthnasol weithgarwch sy’n gofyn am gyllid, ac mae rhan o hyn yn

use the resources that are already out there in a better way. Many authorities already provide information to carers, but is it the right information at the right time? Is it up-to-date? Is it comprehensive and coherent? So, besides that new investment, there is deliberation on how effectively the existing resources are used.

[145] **Gwenda Thomas:** There is good work out there that can be built upon. That will have an influence on how much money needs to be made available. It depends on what structures are in place already. I would like to stress again that these are the most robust estimates that we can produce, and we have produced them.

[146] **Eleanor Burnham:** On the funding, one assumes that you have ring-fenced it. Have you considered the best practice that is out there, and the fact that, in many respects, those bodies might feel that they are being penalised if they do not receive this money as they already provide a service that is akin to what you require?

[147] **Gwenda Thomas:** As I say, the stakeholder group includes the WLGA, and it and the NHS have worked with us on the development of these estimates. As you say, we will need to look at what is out there, and how that fits with the requirements in the regulations that we will develop, and we will do that. However, as John said, there has been no challenge within the stakeholder group to the estimates that we have produced.

[148] **Eleanor Burnham:** What about ring-fencing, or otherwise?

[149] **Gwenda Thomas:** That is a matter for consideration during the budgetary process. This money has been identified within the budget available to the Minister for Health and Social Services.

[150] **Mark Isherwood:** You will be pleased to hear that we are moving towards the end of the session, Deputy Minister. For my own purposes, I would like to clarify a couple of points, one of which related to your last

ymwneud â sut gallwn ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael eisoes mewn ffordd well. Mae llawer o awdurdodau eisoes yn darparu gwybodaeth i ofalwyr, ond ai'r wybodaeth gywir ar yr amser iawn? Ai hon yw'r wybodaeth ddiweddaraf? A yw'n gynhwysfawr a chydlynol? Felly, heblaw'r buddsoddiad newydd, mae ystyriaeth ynglŷn â pha mor effeithiol y defnyddir yr adnoddau cyfredol.

Gwenda Thomas: Mae gwaith da allan yno y gellir adeiladu arno. Bydd hynny'n dylanwadu ar faint o arian sydd angen sicrhau ei fod ar gael. Mae'n dibynnu ar ba strwythurau sydd eisoes ar waith. Hoffwn bwysleisio eto mai'r rhain yw'r amcangyfrifon mwyaf cadarn y gallwn eu llunio, ac yr ydym wedi'u llunio.

Eleanor Burnham: O ran yr ariannu, byddai rhywun yn rhagdybio eich bod wedi'i neilltuo. A ydych wedi ystyried yr arfer gorau sydd ar gael, a'r ffaith, ar sawl ystyr, y gallai cyrff deimlo eu bod yn cael eu cosbi os nad ydynt yn derbyn yr arian hwn gan eu bod eisoes yn darparu gwasanaeth sy'n debyg i'r hyn sy'n ofynnol gennych?

Gwenda Thomas: Fel y dywedais, mae'r grŵp rhanddeiliaid yn cynnwys CLILC, ac mae hi a'r GIG wedi gweithio gyda ni i ddatblygu'r amcangyfrifon hyn. Fel yr ydych yn ei ddweud, bydd angen i ni edrych ar yr hyn sydd ar gael, a sut mae hynny'n cyd-fynd â'r gofynion yn y rheoliadau y byddwn yn eu datblygu, a byddwn yn gwneud hynny. Fodd bynnag, fel y dywedodd John, ni chafwyd unrhyw her o fewn y grŵp rhanddeiliaid i'r amcangyfrifon yr ydym wedi'u llunio.

Eleanor Burnham: Beth am neilltuo cyllid, neu fel arall?

Gwenda Thomas: Mater i'w ystyried yn ystod y broses gyllidebu yw hynny. Mae'r arian hwn wedi'i nodi o fewn y gyllideb sydd ar gael i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mark Isherwood: Byddwch yn falch o glywed ein bod yn nesáu at ddiwedd y sesiwn, Ddirprwy Weinidog. At fy nibenion fy hun, hoffwn gael eglurhad ar bwynt neu ddau, ac mae un o'r rhain yn ymwneud â'ch

answer. The Proposed Social Care Charges (Wales) Measure was to be funded from resource streams currently allocated to schemes coming to an end in 2011. Are we talking about money that would be reallocated from existing schemes, or completely new money?

[151] **Gwenda Thomas:** To the best of my knowledge, this is new money identified within the budget of the Minister for health.

[152] **Mark Isherwood:** Secondly, I refer back to the list of relevant authorities, which would obviously include all county or county borough councils and presumably education authorities, which are critical. The charities and organisations that work with young carers emphasised to me, and I am sure to others, that education is a key issue for them. Can you confirm, therefore, that the list would include local education authorities, but presumably would exclude incorporated bodies such as further education colleges? Am I right in my understanding?

[153] **Gwenda Thomas:** I do not feel confident to answer that specific question off the top of my head. Could I write to you on that? The proposed Measure has the scope to include all local authority services, but I will take that important point and come back to you on it.

[154] **Mark Isherwood:** I move on to the last question. Right at the beginning of the session you referred to the Equality Bill that is currently going through the UK Parliament. What impact do you feel that that will have on this proposed Measure, other than the points that you raised at the beginning of this session?

[155] **Gwenda Thomas:** The Equality Bill will have no direct effect on the provisions in this proposed Measure. The focus of the proposed Measure is on the specific powers and duties of statutory agencies in respect of carers and on ensuring better outcomes for carers. The proposed Measure is not directly concerned with the wider issues of equality and discrimination that are covered in the Equality Bill. That Bill will apply in full in England and Wales, and will harmonise and

ateb diwethaf. Roedd y Mesur Arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) i gael ei ariannu o ffrydiau adnoddau a ddyrennir ar hyn o bryd i gynlluniau sy'n dirwyn i ben yn 2011. A ydym yn siarad am arian a fyddai'n cael ei ailddyrannu o gynlluniau cyfredol, neu arian newydd sbon?

Gwenda Thomas: Hyd y gwn i, arian newydd yw hwn a nodwyd o fewn cyllideb y Gweinidog dros iechyd.

Mark Isherwood: Yn ail, yr wyf yn cyfeirio'n ôl at y rhestr o awdurdodau perthnasol, a fyddai'n amlwg yn cynnwys pob cyngor sir neu fwrdeistref sirol ac awdurdodau addysg mae'n debyg, sy'n hollbwysig. Pwysleisiodd yr elusennau a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda gofalwyr ifanc i mi, ac yr wyf yn sicr i eraill, fod addysg yn fater allweddol iddynt. A allwch gadarnhau, felly, y byddai'r rhestr yn cynnwys awdurdodau addysg lleol, ond yn eithrio cyrff corfforedig fel colegau addysg bellach mae'n debyg. A ydw i'n gywir?

Gwenda Thomas: Nid wyf yn teimlo'n hyderus i ateb y cwestiwn penodol hwnnw yn fy nghyfer. A gaf ysgrifennu atoch ar hynny? Mae gan y Mesur arfaethedig y cwmpas i gynnwys pob gwasanaeth awdurdod lleol, ond dof yn ôl atoch ynglŷn â'r pwynt pwysig hwnnw.

Mark Isherwood: Yr wyf am symud ymlaen at y cwestiwn olaf. Ar ddechrau'r sesiwn bu i chi gyfeirio at y Mesur Cydraddoldeb sy'n cael ei gyflwyno gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd. Pa effaith gaiff hynny yn eich barn chi ar y Mesur arfaethedig hwn, ar wahân i'r pwyntiau a godwyd gennych ar ddechrau'r sesiwn?

Gwenda Thomas: Ni fydd y Mesur Cydraddoldeb yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig hwn. Mae'r Mesur arfaethedig yn canolbwyntio ar bwerau a dyletswyddau penodol asiantaethau statudol mewn perthynas â gofalwyr ac ar sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer gofalwyr. Nid yw'r Mesur arfaethedig yn ymwneud yn uniongyrchol â materion ehangach cydraddoldeb a gwahaniaethu a gwmpesir yn

consolidate the existing legislation. If enacted, it will give Welsh Ministers the power to impose on certain public authorities in Wales a duty to consider socio-economic inequalities when taking strategic decisions. The Bill also contains a provision giving Welsh Ministers the power to impose a specific equality duty on relevant Welsh authorities. The purpose of these duties will be to support the authorities' ability to comply with the public sector's general equality duty.

y Mesur Cydraddoldeb. Bydd y Mesur hwnnw'n berthnasol yn llawn yng Nghymru a Lloegr, a bydd yn cytgordio a chyfnerthu'r ddeddfwriaeth gyfredol. Pe bai'n cael ei ddeddfu, bydd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru osod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodol yng Nghymru i ystyried anghydraddoldebau economaidd gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae'r Mesur hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru osod dyletswydd cydraddoldeb penodol ar awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Diben y dyletswyddau hyn fydd cynorthwyo gallu'r awdurdodau i gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol y sector cyhoeddus.

[156] Finally, with regard to carers who are looking after disabled persons—and I am sure that you recollect the case of Sharon Coleman, which was highlighted in the press at the time, and with whom I have discussed this issue—the drafting of the Equality Bill is sufficiently broad to capture such carers where they are discriminated against because of their association with a person needing care. That was what the case of Sharon Coleman was all about, and it has influenced the Equality Bill. Insofar as that case is concerned, it has that effect on that aspect of caring.

I gloi, o ran gofaluwyr sy'n gofalu am bobl anabl—ac yr wyf yn sicr eich bod yn cofio achos Sharon Coleman, a gafodd sylw yn y wasg ar y pryd, ac yr wyf wedi trafod y mater gyda hi—mae drafft y Mesur Cydraddoldeb yn ddigon eang i gynnwys y cyfryw ofaluwyr y gwahaniaethir yn eu herbyn oherwydd eu cysylltiad ag unigolyn sydd angen gofal. Dyna oedd byrdwn achos Sharon Coleman, ac mae wedi dylanwadu ar y Mesur Cydraddoldeb. O ran yr achos hwnnw, mae'n cael yr effaith honno ar yr agwedd honno ar ofalu.

[157] **Mark Isherwood:** Are there any issues that you wish to raise that have not been covered in questions, or do you have any closing remarks that you would like to make?

Mark Isherwood: A oes unrhyw faterion yr ydych am eu trafod nad ydynt wedi cael sylw mewn cwestiynau, neu a oes gennych unrhyw sylwadau i gloi yr hoffech eu gwneud?

[158] **Gwenda Thomas:** I thank the committee for its rigorous scrutiny, which I welcome. I am willing to take on board any points that the committee might want to raise at this stage. Diolch i chi.

Gwenda Thomas: Diolch i'r pwyllgor am ei graffu trylwyr, ac yr wyf yn croesawu hynny. Yr wyf yn fodlon ystyried unrhyw bwyntiau y gallai'r pwyllgor fod am eu codi ar hyn o bryd. Diolch i chi.

[159] **Mark Isherwood:** We would be grateful if the information that you promised to share with the committee could be forwarded to the clerk as soon as practicable.

Mark Isherwood: Byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu anfon y wybodaeth yr ydych wedi addo ei rhannu gyda'r pwyllgor at y clerwr cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

10.30 a.m.

[160] I thank the Deputy Minister, Therese and John for attending today. A draft transcript of today's proceedings will be sent

Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog, Therese a John am fynychu heddiw. Bydd y clerwr yn anfon trawsgrifiad drafft o drafodion

to you by the clerk for correction if necessary before being finalised. I inform Members that our next meeting will be held on Wednesday, 24 February. I will be attending the Constitutional Affairs Committee as Chair of this committee to give evidence on the matters that we raised with that committee, which were highlighted in the Welsh language LCO in particular, and I will report back to you on that. I will bring the formal session to an end, but I would be grateful if Members stayed for two minutes to cover a couple of outstanding items.

heddiw atoch i'w gywiro os oes angen cyn iddo gael ei derfynu. Yr wyf yn hysbysu Aelodau y cynhelir ein cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 24 Chwefror. Byddaf yn mynychu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol fel Cadeirydd y pwyllgor hwn i roi tystiolaeth ar y materion a godwyd gennym gyda'r pwyllgor hwnnw, a amlygwyd yn y GCD Cymraeg yn benodol, a byddaf yn adrodd yn ôl i chi ar hynny. Yr wyf yn dirwyn y sesiwn ffurfiol i ben, ond byddwn yn ddiolchgar pe bai Aelodau yn aros am ddau funud i drafod ambell eitem bellach.

*Daeth y cyfarfod i ben am 10.31 a.m.
The meeting ended at 10.31 a.m.*